"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1878. [RHIF 70.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Y ddiweddar Barch. Titus Lloyd	217
Er Coffadwriaeth am y diweddar Barchedig Titus Lloyd, o Nottais, yn Morganwg	222
Arweiniad i'r Testament Newydd	223
Undodiaeth yn Neheudir Cymru	226
Un o angenion ein Hysgolion Sul	228
Hanes y Cread fel y mae yn cael ei dysgu gan Wyddor	229
Gohebiaethau	234
Hanesion	237
Marwgofion	238
Barddoniaeth	214

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

CAPEL UNDODAIDD DOWLAIS.

Pan y mae mudiad ar droed i adeiladu Capel at wasanaeth yr Undodiaid yn y lle poblog hwn, ni byddai gair o hanes yr achos yn yr amser a aeth yn debyg yn anfuddiol.

Dydd Sul, Tachwedd 24ain, 1861, y darfu i'r diweddar barchedig Owen Evans, gweinidog yr Undodiaid yn Nghefncoedycymmer, ymweled â Dowlais, i bregethu ei bregeth gyntaf yn y lle, yn Long Room y New Inn. Bu Mr. Evans yn benaf yn cael ei gynnorthwyo yn achlysurol gan ereill, yn pregethu yma yn fisol hyd ei farwolaeth yn 1865. Am y deng mlynedd nesaf, sef hyd ddiwedd y flwyddyn 1875, ni bu neb o'r Undodiaid yn pregethu yn y lle. Y pryd hwn talodd y Parch. John Davies, Alltyplaca, Ceredigion, ymweliad â Dowlais fel cenadwr dros y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, ac ar ddiwedd ei weinidogaeth ef, sefydlwyd yma Ysgol Sul, a chariwyd yn mlaen wasanaeth crefyddol yn lled reolaidd gan amryw o weinidogion yr Undodiaid, ond yn benaf gan y Parchn. R. J. Jones, M.A., a W. James, B.A., Aberdar, yn nghyd a'r Parch. J. H. Davies, gweinidog ieuanc Cefncoedycymmer. Cynnelir y cyfarfodydd er ys tro bellach yn Long Room y Canford Inn, yr hwn sydd fan tra chyfleus. Etto i gyd, er fod y lle yn lled gyfleus, a bod Mr. Davies a'i briod yn hynod o garedig, nid ydym yn ystyried y lle ond dinas noddfa ac nid dinas barhaus. Yr ydym mewn canlyniad wedi dyfod yn unfrydol i'r penderfyniad i wneyd ymdrech egniol tuag at adeiladu capel. Yn mhlith yr ystyriaethau yn ein hannog i fyned at y gorchwyl mewn gwir ddyogel obaith y llwyddwn y mae y ffeithiau a ganlyn. Yr ydym lawer o weithiau wedi gweled teuluoedd yn dyfod i'r lle hwn, y rhai yn ei hardaloedd genedigol a arferent addoli mewn cynnulleidfaoedd Undodaidd; ond wedi dyfod yma i drigianu o ddiffyg addoliad Undodaidd, gwnaethant hwy a'u teuluoedd ymuno âg enwadau ereill, neu ynte buont fyw yn llwyr y tu allan i gylch unrhyw gymdeithas grefyddol. Gwelsom etto waeth. Buom er ein mawr ofid yn llygaid dystion o waith llawer o ddynion ieuainc yn ymollwng i ddifrawder gyda chrefydd, mater pwysicaf bywyd, ië, yn rhoi ffordd i ffolineb ac afradlondeb. Pe buasai capel Undodaidd yn y lle, nid ydym heb feddwl y gallesid gobeithio ysgoi llawer o leiaf o'r amryfusedd a nodwyd. Heblaw hyn, nis gallwn gau ein llygaid i'r ffaith fod ymdrechion parhaus yn cael eu gwneyd yn ein gwlad i'w dwyn hi yn ol, a'i dal drachefn o dan iau caethiwed Pabyddiaeth, ac nid heb gryn lwyddiant; fel y gallwn weled oddiwrth effeithiau y cyfryw ymdrechion ar ein Heglwys Wladol yn neillduol. Ni charem yn sicr fyth etto i weled ein gwlad yn plygu glun i'w santeiddrwydd o Rufain. Yn awr, yr ydym o'r fârn mai y rhagfur mwyaf effeithiol er cadw y llanw Pabyddol rhag gorlifo ein hanwyl wlad yw sefydliadau gwir Brotestanaidd.

Mae y gwahanol bleidiau crefyddol yn Dowlais yn sefyll rhywbeth fel hyn:—Un Eglwys Babyddol; dwy Eglwys Wladol; deuddeg o gapeli Ymneillduol, ac amryw ysgoldai yn barod, tra y mae ereill yn

(*Gwel tud.* 3*ydd o'r Amlen*)

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1878. [RHIF. 70.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y DIWEDDAR BARCH. TITUS LLOYD.

[Ganwyd Mai, 1795; bu farw Hydref 23ain, 1878.]

DYLANWAD BYWYD DA.

"A'r doethion a ddysgleiriant fel dysgleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder, a fyddant fel y sêr byth ac yn dragywydd."—Daniel xii. 3.*

ALLAN o olwg, allan o gof, sydd hen ddiareb a llawer o wir ynddi. Tir annghof yw y bedd yn cael ei alw: etto mor hoff yw genym, mor naturiol yw ini, geisio gwneuthur rhyw *fonument* "Er Cof," rhyw "Adgof uwch Annghof" am ein hanwyliaid ymadawedig. Y mae rhyw lecyn tyner yn mynwes pob un, rhyw *God's Acre*, lle mae adgofion gwerthfawr a melus yn cael eu trysori am ryw rai hoff nad ydynt mwy yn rhodio'r ddaear hon—rhyw dad feallai neu fam dyner, neu frawd neu chwaer anwyl, neu o bossibl rhyw gyfaill mynwesol nad yw yma mwy, ond wedi cychwyn ar y daith hono nad oes dychwelyd iddi. Melus yw yr adgof am danynt, yn enwedig os oeddynt o nifer y doethion a'r deallus, y rhinweddol, y duwiol a'r da. Nid oes nemawr neb yn marw nad oes rhywrai yn galaru ar ei ol, nad oes rhywun yn teimlo ei fod wedi colli rhyw dda o'i farw, ac felly yn gollwng deigryn o dosturi ar ei fedd. Nid oes un bywyd nad oes ynddo ryw dda; ond y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng bywyd a bywyd, rhwng cymmeriad a chymmeriad. A phwy a ddichon ddadgan gwerth bywyd da? gwerth ei ddylanwad moesol—bywyd wedi ei lwyr gyssegru at wasanaeth dynoliaeth, wedi ei aberthu ar allor dynoliaeth? Mae ei ddylanwad yn fendigedig, a'r coffa am dano yn fendigedig yr un modd.

* Traddodwyd sylwedd y sylwadau yma yn y Nottais, Hydref y 27ain, ac yn y Wig, Tachwedd y 17eg.

Un o arwireddau athroniaeth ddiweddar yw, nad oes diddymu ar un defnydd. Dichon y defnyddiau fyned dan gyfnewidiadau, ond nid ydynt yn darfod, ni ellir eu dinystrio. Er llosgi o'r ganwyll, mae y defnyddiau etto yn parhau, nid yn yr un ffurf ag o'r blaen mae'n wir, ond mewn ffurfiau newydd. Mae pob peth yn myned trwy ei gyfnewidiadau, ond nid oes dim yn darfod. Deil y naill wrthddrych ei gyssylltiad â gwrthddrych arall, a dylanwada arno. Daliant oll berthynas a chyssylltiad y naill a'r llall, a dylanwadant ar eu gilydd. Sugndyna'r llong y cwch, a sugndyna'r cwch yntau y llong yn ol ei faintioli. Ac nid bodau unigol yw neb dynion, ond aelodau o'r un gymdeithas fawr ac yn dal perthynas a chyssylltiad bob yr un o honynt y naill ar y llall, er da ynte er drwg. A gweithredoedd dynion—nid oes yr un o honynt yn ddigyssylltiad nac yn ddiddylanwad. Pan fwrir carreg i lyn, taflir y dwfr i gylchoedd y naill tu allan i'r llall, a phob cylch allanol o hyd yn fwy nâ'r cylch y tu fewn iddo; ac y mae'n anhawdd nodi allan y cylch sydd yn cyfyngu y cylchoedd ereill i gyd. Felly ein gweithredoedd fel aelodau cymdeithasol—dylanwadant ar gylch bychan ar y cyntaf, cylch ein hadnabyddiaeth agosaf, yna ar gylch helaethach, ac yna ar gylch helaethach drachefn, ac felly yn helaethu o hyd, hyd oni bydd yn annichonadwy i ddychymygu maint y cylch fydd yn cyfyngu yr holl ddylanwadau. Ac yn mhellach, nid yn unig mae ein gweithredoedd yn dylanwadu ar ereill, ond dylanwadant arnom ein hunain hefyd. Gadawant eu hol arnom bob yr un o honynt. Fel y mae natur dwfr yr afon yn ei hymarllwysiad i'r môr yn dybynu ar natur y tir y mae wedi dylifo trwyddo yn yr oll o'i thaith, ac ar bob cornant sydd wedi rhedeg iddi; felly y mae ein cymmeriadau ninau ar unrhyw adeg o'n bywyd yn dybynu ar holl gyssylltiadau blaenorol ein bywyd, ac ar yr holl weithredoedd ydynt wedi eu cyflawnu genym yn ystod ein bywyd. Nid rhyw weithredoedd unigol sydd yn gwneuthur i fyny ein cymmeriad ddim, ddim yn fwy nag y mae carreg gornel yn gwneuthur i fyny adeilad. Ond y mae pob gweithred fach o'r eiddom, nad pa mor ddibwys yn ein golwg, yn helpu i wneuthur i fyny ein cymmeriad, megys y mae pob dernyn o gareg, neu o ba beth bynag sydd yn yr adeilad yn myned i wneuthur yr adeilad y peth ydyw. Mor wyliadwrus ynte y dylem fod ar ein holl weithredoedd—yn wir, ar bob meddwl a gair a gweithred; gan fod meddwl a gair a gweithred mor fynych yn dwyn nodweddau na ddylent. Mae yn wir mai gweinion ac anmherffaith ydym ar y goreu, etto, dylai ein hymgais fod y goreu y gallwn—yr agosaf y gallwn o hyd at berffeithrwydd. Amgylchynir ni gan rwystrau a phrofedigaethau lawer, ac y mae gwendid ein natur mor fawr fel mae braidd yn rhy anhawdd ymgadw o hyd ar y llinell uniawn. Mae cymmaint o nwydau a chwantau heb eu tori i mewn, heb eu darostwng a'u dwyn dan berffaith lywodraeth genym, fel yr ydym mewn perygl o hyd i dori dros y llinell. Dyn perffaith—mor ardderchog fyddai, â'i holl nwydau a'i chwantau dan berffaith reolaeth—fel y deuddeg ceffyl dan reolaeth y marchogwr yn y *circus*—heb yr un yn tynu'n groes, ond oll yn rhedeg mewn perffaith ymostyngiad dan lywodraeth rheswm a chydwybod dda. Dywedai

cyfaill wrth Socrates, yr athronydd paganaidd, fod rhywun yn dywedyd ei fod o dymher wyllt iawn. Addefodd Socrates yn rhwydd ei fod yn naturiol felly, ac mai trwy ymdrech galed a dysgyblaeth !em y darfu iddo ddwyn ei dymher dan lywodraeth briodol. Hyn ddylai fod ein cais ninau, i ddarostwng pob nwyd aflywodraethus, i ddal y ffrwyn yn dyn ar bob blys, i wylied y "pechod sydd barod i ni," a gosod amddiffyngaerydd fel na bo i ni syrthio iddo.

Ein cymmeriadau eiddom ni ydynt—mae yn ein llaw ni i'w gwneuthur yn dda ynte yn ddrwg. Y talentau a feddwn, rhodd Duw ydynt, ac nid ydynt i ni ymffrostio ynddynt; a'n cyfoeth nid yw ond peth allanol i ni—rhywbeth a ddichon fod gyda ni heddyw, ac wedi cymmeryd aden yfory; a'r clod a'r mawredd a ddichon fod wedi ymgyssylltu â ni, nid y ni ydynt ond mor bell ag maent yn cymmeryd eu rhan yn ffurfiad ein cymmeriadau. Ond ein cymmeriadau eiddom ni ydynt; ffrwyth ein gofal a'n hymdrech ni. Ac O, mor adderchog peth yw cymmeriad da, bywyd da; mor werthfawr ei ddylanwad ac mor fendigedig y coffa am dano. Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig, a'r hwn a rodia yn uniawn a rodia yn ddyogel—yn ddyogel, ni bydd achos iddo ofni, bydd dylanwadau nefoedd a daear o'i du. Nad pa bryd y daw y genad olaf i'w nol ادref, nid ofna; teimla fod y breichiau tragwyddol odditano, ac ymollynga i ymchwyddlif yr afon fawr yn gwbl ddibryder.

Yn gwbl ddibryder gallem feddwl y darfu i'n patriarch-gyfaill o'r Nottais lansio ei gwch, dan yr amgylchiadau mwyaf ffafriol, ac heb yr un awel groes. Wedi myned i'w wely y noson flaenorol i bob ymddangosiad yn ei gynnefinol iechyd, erbyn y boreu yr oedd yr elfen fywiol wedi diflanu. Pasiodd ymaith wrth bob tebyg yn ei gwsg, yn ddiarwybod i'w berthynasau, ac wrth bob tebyg yn ddiarwybod iddo ei hunan. Yr oedd wedi meddwl llawer am y daith olaf hon, a theimlwn yn sicr nad oedd yn anmharod iddi. Yr oedd wedi trefnu ei dŷ, wedi trwsio ei *lamp*, ac yn dysgwyl yr amser. Yr oedd ei ffydd yn gref yn yr egwyddorion ag oeddynt wedi bod dros gynnifer o flynyddoedd yn faich ei bregethu, fel yr oedd yn gallu ymryddhau yn rhwydd oddiwrth gyssylltiadau anwyl y bywyd hwn yn yr ystyriaeth nad oedd ond megys ymryddhau yma i adnewyddu hen gyssylltiadau mwy lluosog yn y byd tuhwnt, canys

Y mae'r gymdeithas yma'n gref
Ond yn y nef hi fydd yn fwy.

Pan gychwynodd Columbus gynt (1492) ar ei daith hynod—ar edyn ffydd yr elai. Yr oedd y fordaith yn arw, a'r morwyr gydag ef yn y llong yn wrthwynebol iawn, ond rhag ei flaen yr elai efe, er gwaethaf rhwystrau a gwrthwynebiadau, mewn ufudd-dod i lais dyledswydd, y ffydd oedd yn ei galon fod tir y tu hwnt. O'r diwedd gwelir arwyddion—ffrwythau coed ar wyneb y môr, wedi eu cludo oriwaered gan ryw afon, a phob yn ychydig ceir arogl yr awyr yn newid, ac yn mhen ychydig drachefn, y tir hir ddysgwyliedig yn dyfod i'r golwg, O, groesaw hyfryd olwg! O, werthfawr lygad ffydd! Felly ein cyfaill anwyl, ar ol ei daith hirfaith, ar ol cyfarfod llawer ystorom, a gorchfygu llawer o an-

hawsderau, ar ol gweled llawer o *ups-and-downs* mewn bywyd, ar ol y tywydd teg a'r tywydd garw, a dyfod trwy yr oll yn ddianaf, o hyd yn glynu wrth ffydd, gallwn ei ddychymygu yn gweled y *light-ahead*, ac yn teimlo fod hafan y tawelwch mawr gerllaw, a'i dafod yn llefaru

'Rwy'n dechreu gweled rhan o Ganaan,
Mae'r âr yn dechreu altro 'i hanian,
'Rwy'n teimlo mwy o naws y nefoedd
Yn awr yn agos i'w hardaloedd.
* * *
'Rwy'n gwel'd copa mynydd Seion
Ac ambell drem o'i dyrau gwynion!

Ac a ydyw yn ormod i ni ddychymygu ei fod yn gweled draw ar y bryniau tragwyddol ei hen gyfeillion, cyfeillion ei oes, yn ei ddysgwyl ac yn barod i'w groesawi. Pan yn tywyllu yma yr oedd yn goleuo draw,

A chyda'r wawr, o fewn i'r nefol wlad
Ca'dd weled gwên anwyliaid tŷ ei Dad!

Ac yn awr, gyfeillion, y mae a fyno y sylwadau yma yn fwy â chwi nag â'ch gweinidog ymadawedig. Mae efe wedi blaenu, yn y man byddwn ninau yn canlyn ar ei ol. A garem ni fod genym gystal cyfrif ag efe i'w rhoddi o'n goruchwyliaeth? Os felly, awn a gwnawn yr un modd. Mae eich gweinidog wedi myned, ond y mae ei waith yn aros —ac erys byth yn ei ddylanwadau bendigedig. Pwy bellach esyd ei ysgwyddau dan "arch y cyfammod" tragwyddol yn y lle hwn? A garech i'r lle yma fod etto yn y dyfodol yn ffynnonell o ddylanwad a bywyd ysprydol fel cynt? Yna, cymmerwch eich rhan bob un yn y gwaith da; bydded pob un yn ffyddlon, pob un yn weithgar. Gwnaed pob un ei ran. Na adawer yr holl waith yn nwylaw dau neu dri. Gall pob un wneuthur ychydig, gwnaed pob un ei oreu. Ffyned cariad. Parhaed brawdgarwch. Yna ni bydd achos ofni y bydd i neb syrthio yn ysglyfaeth i Ddagon ffasiwn a phoblogrwydd. Os yw y bugail wedi ei gymmeryd, edrycher na byddo i'r praidd i gael gwasgaru. Y sawl a fuont ffyddlon hyd yma, byddent ffyddlon etto yn y dyfodol—yn ffyddlon i'r achos yn ei holl gyssylltiadau. Rhoddent eu presenoldeb etto mor fynych ag y medront yn y cyfarfodydd, yn y cwrdd gweddi, yn yr Ysgol Sul, yn yr Ysgol Gân; fel y byddo i'r achos da gael ei gadw yn fyw a llwyddo.

Y mae dau bren ag y gellir dywedyd fod pob dyn yn dwyn tebygrwydd i'r naill neu'r llall o honynt, sef y pren Upas a'r pren Eucalyptus. Tyfa'r pren Upas yn Nyffryn Java, a dywedir ei fod yn bren drwg iawn, yn gwenwyno yr holl awyr oddiamgylch iddo, ac yn gwenwyno pawb a ddeuant yn agos ato. Tyfa'r pren Eucalyptus yn Itali, er ei fod wedi ei drawsblanu yn awr i lawer gwlad arall, ac y mae hwn bob amser yn puro ac yn iachau'r awyr. Planir ef mewn corsydd afiach, a dywedir fod ei ddylanwad yn fendigedig. Yn awr, yn debyg i ba un o'r ddau bren yma y carem ni fod? A fyddwn ni yn brenau Upas, yn melldithio ac yn gwenwyno, trwy ein hymddygiad drwg, bob un a ddelo o fewn y cylch y byddom yn troi ynddo; neu ynte, oni

fyddwn ni yn hytrach yn gyffelyb i'r pren Eucaliptus, yn fendith ac yn iechyd i bawb a ddelont yn agos atom? Gwyddom yn debyg i ba un y carai pawb o honom fod. O rhodder i ni gael bod yn ffyddlon ynte i'r da a adwaenwn. Cofiwn yn barchus am y blaenoriaid, meddyliwn am danynt; cofiwn eu ffyddlondeb mawr yn traethu i ni air Duw; dylynwn eu ffydd, ac ystyriwn ddiwedd eu hymarweddiad hwynt.

Cymmerir y sylwadau canlynol allan o'r *Unitarian Herald* am Tachwedd 8, 1878.

Y mae un arall o'n gweinidogion hynaf a mwyaf parchus wedi ei alw i'w hir gartref, yn mherson y Parch. Titus Lloyd, o'r Nottais a'r Wig, yr hwn a fu farw Hydref 23, yn ei 84 mlwydd oed. Ar y noson flaenorol yr oedd wedi myned i'w wely yn ei gynnefinol iechyd ac i bob ymddangosiad yn fwy ysprydol nag arferol, ond yn y boreu tua deg ar y gloch, fe'i cafwyd wedi marw ac wedi oeri, yr oedd wedi pasio ymaith yn dawel yn ei gwsg. Yr oedd Mr. Lloyd yn foneddwr a berchid yn fawr iawn, nid yn unig yn mhlith aelodau ei gynnulleidfaoedd ei hunan, ond hefyd gan bawb a'i hadwaenai nad i ba enwad bynag y perthynent, ac y mae ei farwolaeth ddisymwth wedi bwrw cysgod pruddaidd dros yr ardal yn yr hon yr oedd yn byw. Y gwynebpryd serchog a elai i mewn ac allan yn eu plith am gynnifer o flynyddoedd—fe welir ei eisiau yn hir.

Ganwyd Mr. Lloyd yn mhlwyf Bridell, ger Aberteifi, yn Mai 1795, ac yr oedd yn fab i'r Parch. Evan Lloyd, yr hwn a ddaeth i fod yn weinidog yn y Nottais a'r Wig yn Ionawr 1808, ac a fu farw Gorph. 30ain, 1847.*

Mae'n debygol i Mr. Titus Lloyd ddechreu pregethu tua 55 mlynedd yn ol, ond ni chafodd ei ordeinio i fod yn weinidog rheolaidd am rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Cymmerodd ei ordinasiwn le yn y Wig, pan y gwasanaethwyd gan ei dad a'r Parch. J. E. Jones, Penbont-ar-Ogwy, ond nid ydym wedi bod yn alluog i gael allan yn mha flwyddyn. Yn ystod blynyddoedd hir ei weinidogaeth, profodd ei hun yn wasanaethydd ffyddlon ac ymroddedig i Grist, ac ennillodd serch a chymmeradwyaeth ei gynnulleidfaoedd. Er fod y Wig ryw naw milldir i ffwrdd, yn anfynych y methai fod yn bresenol at ei gyhoeddiad. Yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiweddaf, cynnorthwyid ef gan ei fab hynaf, ond mor ddiweddar a'r Sul cyn ei farwolaeth, bu'n gwasanaethu yn Mhenybont-ar-Ogwy, pellder o chwe milldir. Claddwyd ei weddillion marwol ar y Sadwrn canlynol yn yr un bedd â'i wraig, yn y fynwent sydd wrth gapel y Wig, y gweinidogion canlynol yn cym-

---

* Mewn bywgraffiad yn YR YMOFYNYDD am 1847, cawn fod Mr. E. Lloyd yn aelod o *militia* Sir Benfro yn 1797, pan y darfu i'r Ffrancod lwyddo i dirio yn Aberdaugleddau (Fishguard), ac yr oedd yn bresenol pan y rhoddasant eu hunain i fyny i Iarll Cawdor. Wedi iddo ddyfod i Forganwg (1808), gwnaeth lawer o waith fel cenadwr, a cheir ei enw yn fynych yn rhifynau boreu y *Monthly Repository*.

meryd rhan yn y gwasanaeth—y Parchn. George, Aberdar; James, Aberdar; Evans, Gellionen; Davies, Cefn; Davies, Alltyplaca; a Jones, Llanbedr. Ar y Sul canlynol, traddodwyd pregeth angladdol i gynnulleidfa luosog yn nghapel y Nottais, gan y Parch. R. J. Jones, Aberdar.

ER COFFADWRIAETH AM Y DIWEDDAR BARCHEDIG TITUS LLOYD, O NOTTAIS, YN MORGANWG:

BU FARW HYDREF 23AIN, 1878, YN EI 84AIN OED.

Pa derfyn dedwydd i ba fywyd cu!
  O'i nosawl gwsg i'w olaf ca'dd ei ddwyn;
Heb gyffro ac heb dwrf ei ddiwedd fu,
  Yn ddarlun gwir o'i dawel fywyd mwyn.
Am orphwys galw wnai ei ymdrech hir,
  Er mai nid gorphwys oedd ei anian ef;
Ond bellach gorphwys ga 'n y dedwydd dir,—
  Nid oes ond gorphwys yn nhrigfanau 'r nef.

Yn hir fe gofir y seraphaidd dân
  A losgai yn ei weinidogaeth fyw;
Nis byth arbedai ei egnioedd glân,
  Dawn llwyr ei fywyd a gyssegrai i Dduw.
Fe welodd wrth ei draed genedlaeth ddwy:
  Y gyntaf dô ynt heddyw yn y nef;
Yr ail, yn britho 'i henaint y maent hwy,
  A buan, buan y canlynant ef.

Yn swn y môr a garai er yn llanc—
  Y môr a chwery ryw dragwyddol gân—
Yr huna 'n esmwyth wedi esmwyth dranc;
  A llawer cyfaill ddaw yn drist ei rân
I wel'd y fan y gorwedd un mor gu,
  Fel ar ryw bererinol santaidd daith,
I wylo deigryn dros yr amser fu,
  Am un hyd angeu lynodd wrth ei waith.

Yn iach, bererin-batriarch, yn eich bedd!
  I lanw 'r bwlch, Duw 'n unig a wyr pwy,
Pwy ddaw â'i genadwri o nefol hedd,
  Pwy ddyg eich mantell ar ei ysgwydd mwy.
Ond O! ei arfaeth Ef ni threulia hi,
  Mae ganddo weithwyr ffyddlawn wrth ei raid;
Ni saif y gwaith mor dda a garech chwi,
  Un gwaith ni saif os iddo Dduw yn blaid.

Hyd. 28*ain*, 1878. W. THOMAS.

ARWEINIAD I'R TESTAMENT NEWYDD,

GAN Y PARCH. H. S. SOLLY, M.A., PADIHAM.

(*Parhad o Rifyn Tachwedd, tud.* 198.)

XIX.

DARFU i Iuddew o'r enw Philo, oedd yn byw yn Alexandria oddeutu dechreu y cyfnod Cristionogol, wasanaethu fel cyfrwng pwysig rhwng athroniaeth Roegaidd a'r athrawiaeth Gristionogol. Yn ei ysgrifeniadau, ni a gawn lawer iawn yn nghylch "Gair Duw," trwy yr hwn y dywed fod pob peth wedi ei wneyd. Ymddengys fod y syniad gwreiddiol yn hwn yr un ag a osodir allan yn Genesis i. 3: "A Duw a ddywedodd, Bydded goleuni, a goleuni a fu," hyny yw, mae Duw yn creu pethau trwy yn unig ddweyd yr hyn a ewyllysia, trwy ei air. Ond yr oedd tuedd ryfeddol ar yr amser y siaradwn am dano i droi priodoleddau dwyfol i fod yn bersonau dwyfol, ac yn y modd hyn mae Philo yn gwneyd y gair yn fath o oruchwyliwr y Duwdod Goruchaf, yn berson sydd yn cario allan ewyllys Duw. (Cyfeirier yn ol at Wers viii., lle mae peth tebyg yn cael ei ddesgrifio mewn cyssylltiad â doethineb Duw.) Yr oedd Philo yn Iuddew athronyddol ac yn sicr nid oedd erioed wedi clywed son am yr Iesu; ond darfu i ddysgybl Cristionogol yn Asia Leiaf, yn debyg yr un person ag a ysgrifenodd Epistolau Ioan, gael ei ddylanwadu yn ddwfn gan wirionedd athrawiaethau Philo, a chan y gred nad oedd Iesu Grist yn neb amgen nâ'r gair hwn o eiddo Duw; ac mewn canlyniad mae'n gwneyd y syniad yma yn sylfaen y bedwaredd Efengyl neu

YR EFENGYL YN OL ST. IOAN.

Trowch i'r bennod gyntaf, adnodau 1—5; desgrifia y rhai hyn sut yr oedd y gair gyda Duw o bob tragwyddoldeb, sut yr oedd ef yn oleuni ac yn fywyd, a sut yr oedd dynion wedi byw yn y tywyllwch, hyny yw, mewn anwybodaeth, heb wybod y gwirionedd am Dduw a'i air. Mae yn anmhossibl i osod ystyr gywir y geiriau yma mewn ychydig ymadroddion syml, gan fod y syniadau mor ddyeithr i'r dull diweddar o feddwl; y cwbl allwn ddweyd yw nad oedd y gair hwn ddim yn hollol yn berson yn y Duwdod, fel ag yr ystyrid ef yn ddiweddarach pan y cafodd yr athrawiaeth uniawngred ei dadblygu yn gyflawn, ond fod cam hir wedi ei gymmeryd tuag at ffurfio yr athrawiaeth yma. Mae ein hawdwr yn myned yn mlaen (i. 6—14) i siarad am Ioan Fedyddiwr fel yn dwyn tystiolaeth i'r Goleuni, hyny yw, i'r Gair, yr hwn nad adnabu y byd, er fod y byd wedi ei greu trwyddo, ac er mai ei eiddo ei hun oedd; er hyny, yr oedd rhai a'i derbyniasant ef, ac iddynt hwy y rhoddodd efe allu i fod yn feibion i Dduw. Efe, y Gair, a wnaethpwyd yn gnawd, hyny yw, a ymddangosodd yn ffurf ddynol yr Iesu, ac a drigodd yn mhlith dynion, yn llawn gras a gwirionedd.

Mae yr oll o'r bedwaredd Efengyl yn ymgais i weithio allan y syniadau a gynnwysir yn y pedair adnod ar ddeg yma. Mae yr awdwr yn gyfarwydd â'r tair Efengyl gyntaf, ac yn eu defnyddio fel cynnorthwy, ond, er hyny, gyda llawer o ryddid; ac feallai ar bwys traddodiadau oeddent wedi ymledu, mae yn cyfansoddi Bywyd newydd o Grist, sydd yn cael ei dreulio gan mwyaf yn Judea. Yn y dosran cyntaf sydd yn terfynu gyda phennod xii., gosodir allan gan mwyaf annghrediniaeth y byd, yn neillduol yr Iuddewon, y rhai ni chydnabyddent y Gair Dwyfol; ac mae y cyndynrwydd a'r diffyg llwyraf o weledigaeth ysprydol ar ran cydoeswyr Crist yn cael eu paentio yn y lliwiau cryfaf, tra nad yw ei ddysgyblion ei hun yn ymddangos fawr yn well nâ'r gweddill o'i gydwladwyr, Ymdrinia'r ail ddosran, pennodau xiii.—xxi., a'r dyddiau diweddaf yn Jerusalem, ac â sylfaeniad y cyfundeb newydd Cristionogol gan yr Iesu. Yma y gallwn nodi yn neillduol addewid y Dyddanydd, yspryd y gwirionedd, yr hwn a ddaw ac a rydd i'r dysgyblion addysg bellach, y cyfryw nad oeddent yn barod i dderbyn oddiwrth Iesu ei hun (xv. 26; xvi. 12). Yn y modd hyn mae ein hawdwr yn cyfrif am bossiblrwydd dadblygiad athrawiaethau Cristionogol, ac yn cyfiawnhau ei hun wrth ddwyn i mewn ei dduwinyddiaeth. Yr ydym yn ailddweyd, ynte, mai ymadrodd sylfaenol yr Efengyl hon yw fod y gair wedi dyfod i lawr o'r nefoedd i'r ddaear, yr hon oedd wedi ei chreu ganddo, ond ei fod wedi ei wrthod gan bawb heblaw rhyw ychydig, a'i groeshoelio yn ei ffurf ddynol; yr oedd yr ychydig hyn i gyfansoddi Eglwys a fyddai yn sicr o lwyddo o dan ei ofal parhaus, ac yn y diwedd yn barod i'w dderbyn ef at ei eiddo ei hun. Mae yn hawdd i weled yn ngoleuni beirniadaeth, mor *naturiol* y cafodd yr Efengyl yma ei chynnyrchu, mor anmhossibl oedd i'r awdwr i ochelyd gosod honiadau uchelseiniol yn ngenau yr Iesu, a gosod allan y gwrthodiad o honynt fel y pechod mwyaf ofnadwy. Mae'n codi yn naturiol iawn oddiwrth y ffaith ei fod yn meddwl nad oedd yr Iesu yn ddyn fel ni ein hunain, ond y Gair Dwyfol. Darllener pennod xv., a gweler os oedd llawer o'r blaen yn ymddangos yn ddyeithr, gan ei fod mor annghysson â'u syniadau am yr Iesu, ei fod yn dyfod yn brydferth, pan yr ystyriom ef fel teyrnged dysgybl i athraw, yr hwn oedd wedi marw er ys cymmaint o amser, nes yr edrychid arno yn awr fel bod goruwchnaturiol.

XX.

Nid oes eisieu dweyd ond ychydig am

Epistol Cyffredinol Judas.

Mae yn gynnwysedig yn benaf o rybudd yn erbyn yr hereticiaid Gnosticaidd, ac anogaeth "i ymdrech dros y ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r Saint." Cyfeiria at ddau o weithiau Apochryphaidd, *Llyfr Enoch*, adnodau 5—7, 14, 15, ac *Ymhoniad Moses*, adnod 9. Terfyna yn fawreddog gyda geiriau adnod 25, y rhai a ddylent fod fel y canlyn: "I'r unig ddoeth Dduw, ein Hiachawdwr ni, trwy Iesu Grist ein Har-

glwydd, y byddo gogoniant, a mawredd, gallu ac awdurdod, yr awrhon ac yn dragywydd. Amen."

Tra yr oedd y Cristionogion dwyreiniol o'r Ymerodraeth Rufeinig yn ymroddi yn ddyfnach ddyfnach i ddamcaniaeth dduwinyddol, yr oedd sylw neillduol yn cael ei dalu i drefniant ac adeiladaeth ymarferol y cyfundebau Cristionogol. I'r ffaith yma yr ydym yn ddyledus wrth bob tebygolrwydd, am dri Epistol bugeiliol Paul, sef:

Yr Epistol Cyntaf a'r Ail at Timotheus a'r Epistol at Titus.

Mae'r Epistol cyntaf at Timotheus yn proffesu ei fod wedi ei ysgrifenu gan Paul, o Macedonia, at ei gydymaith adnabyddus, Timotheus, yr hwn oedd efe wedi adael fel esgob ar yr Eglwys yn Ephesus. Cyfeiria at addysg hereticaidd (i. 4, 6, 7,) ond mae, gan mwyaf, yn gynnwysedig o hyfforddiadau gyda golwg ar iawn lywodraethiad yr Eglwys. Yr ydym yn gweled yn awr fod yr Eglwys yn gyfundeb ffurfiedig, "yn golofn a sylfaen y gwirionedd," a swyddogion wedi cael eu hymddiried a gofal am y wir ffydd (iii. 9, 15, 16); fod esgob, neu arolygydd yn ol ystyr wreiddiol y gair, yn ben arni; ei fod ef yn llywydd ar yr holl gyfundeb, yn neillduol ar gorff o henuriaid, y rhai a'i cyssegrent ef i'w swydd trwy arddodiad dwylaw (iv. 14). Ymddengys fod yr un ddefod yma o arddodiad dwylaw yn cael ei ddefnyddio wrth appwyntio diaconiaid (v. 22), y rhai oeddent y nesaf o ran safle i'r henuriaid, ac yn ddynion ieuangach, llafurus yn ngwaith yr Eglwys (iii. 8—13). Ymddengys hefyd fod benywod oeddent wedi cyrhaedd oedran addfed, yn cael eu dewis i ryw sefyllfaoedd swyddogol o urddas (v. 9, 10). Nid oes etto un gwahaniaeth rhwng gwyr llên a gwyr lleyg; nid yw'r henuriaid etto wedi dyfod yn offeiriaid, ac mae gan bob Eglwys ei hesgob ei hun, yr hwn nid yw ond llywydd yn unig, ac ni ymddengys fel yn arfer unrhyw awdurdod swyddogol dros Eglwysi cynnydogaethol; ac nid oes unrhyw son etto am wahardd unrhyw wyr Eglwysig rhag priodi. Yr ydym yn gweled, er hyny, yn ei hadau, ddechreuad y gyfundrefn fawr offeiriadol hono a ddadblygwyd yn fuan gan Eglwys Rhufain, a'r hon sydd wedi terfynu mewn Pab anffaeledig. Darllener y drydedd bennod, a sylwer yn adnod 16eg fod "Duw a ymddangosodd" yn gamgymmeriad am "yr hwn (h.y. Crist) a ymddangosodd."

Mae yr ail Epistol at Timotheus yn proffesu ei fod wedi ei ysgrifenu gan Paul yn ystod ei garchariad yn Rhufain. Cynnwysa fwy o anogaeth nag addysg, gyda chyfeiriadau aml at ddaliadau hereticaidd (pen. iv. 9—22). Mae yn hollol bersonol, a thybir ei fod yn ddarn gwirioneddol o ysgrifeniadau Paul gan rai o'r beirniaid sydd yn gwadu awduriaeth y gweddill.

Mae yr Epistol at Titus yn proffesu ei fod wedi cael ei ysgrifenu at Titus ar ol i Paul i'w adael yn esgob ar Eglwys y Cretiaid. Mae ei gynnwys yn debyg iawn i'r Epistol cyntaf at Timotheus. Darllener pennod ii.

Nid yw'n bossibl fod y tri Epistol yma wedi eu hysgrifenu gan Paul, os na thybiwn ni ei fod wedi cael ei ryddhau o'i garchariad cyntaf yn Rhufain, wedi teithio ar ol hyny trwy Creta, Asia Leiaf, a Macedonia,

ac wedi cael ei garcharu yr ail waith yn Rhufain. Mae hyn o hono ei hun yn fwyaf annhebygol, ac wrth farnu cynnwysiad yr Epistolau, tybiwn eu bod wedi eu cyfansoddi oddeutu o.c. 150, pan oedd yr Eglwys wedi ei rhwygo yn dost gan yr heresiau Gnosticaidd, ac yn cyflym drefnu cyfundrefn offeiriadol er mwyn yr amcan neillduol o gadw purdeb y ffydd.

Yr unig lyfr sydd yn aros yw

Ail Epistol Petr.

Cafodd hwn, y llyfr diweddaf yn y Beibl o ran amser, anhawsder mawr i gael ei ollwng i mewn i'r Testament Newydd. Mae y ffaith ei fod yn cael ei briodoli i Petr yn arwyddoccau yn unig ei fod wedi ei ysgrifenu o Rufain. Mae'n siarad am oediad hir ddydd yr Arglwydd, ac yn sicrhau y dysgyblion nad yw'r oediad yn ddyledus i atebiad yr addewid, ond i amynedd yr Arglwydd, yr hwn nid oedd yn ewyllysio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch (iii. 9). Mae yn beth nodweddiadol iawn o'r amser yr ysgrifenwyd yr Epistol hwn ei fod yn cymmeradwyo Epistolau Paul (iii. 14—18); ac ni theimlwn un anhawsder i gytuno ag ef eu bod yn cynnwys "rhyw bethau anhawdd eu deall." O hyn allan, yn nhyfiant yr Eglwys Gristionogol, mae Petr a Paul yn myned law yn llaw, ond mae hanes pellach y tyfiant yma i gael ei ddarllen mewn ysgrifeniadau nad ydynt yn gynnwysedig yn y Testament Newydd.

W. J.

UNDODIAETH YN NEHEUDIR CYMRU.

Yn adroddiad y "Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor" am y flwyddyn bresenol yr ydym yn cael a ganlyn am sefyllfa Undodiaeth yn Neheudir Cymru: "Mae gohebydd Cymreig yn ysgrifenu: Oddiar yr adroddiad diweddaf, nid wyf yn meddwl y gallwn gofnodi llawer o gynnydd yn ein heglwysi ar y cyfan, er fod arwyddion tra chalonog yn rhai o honynt eu bod wedi gwneuthur mwy nâ chadw y tir oedd eisoes wedi ei ennill ganddynt; tra mae ereill, er yn llai lluosog yn cadw i fyny yn dda eu cymmeriad o ddefnyddioldeb cynnyddol a thyfiant graddol. Yn yr ardaloedd pellenig y ceir fod yr ymdrech yn un anhawdd yn erbyn dylanwadau gwrthwynebiadol iawnffyddiaeth. Y mae Mr. Rees yn Nghiliau, Mr. J. Davies yn Nghwmwrdu, Mr. W. Davies yn Mhenrhiw a Phanteg, a Mr. Evans yn yr Onenfawr yn teilyngu pob cydymdeimlad a chefnogaeth oddiwrth Undodiaid am yr ymdrech dewr a wnant yn y lleoedd hyny, lle nad yw syniadau rhydd wedi cymmeryd y fath wraidd ag yn ardaloedd canolog Sir Aberteifi. Yr ydys wedi dechreu y capel newydd at wasanaeth y gynnulleidfa a drowyd allan o Lwynrhydowen, ac y mae y Parch. W. Thomas wedi

gwella mor bell ag i fod yn alluog i gymmeryd i fyny ei ddyledswyddau fel gweinidog. Yn ystod y flwyddyn gorfu ar y Parch. R. C. Jones roddi i fyny ofal yr eglwys yn Nghribin, er mwyn cyflwyno ei holl sylw at Caeronen a Llanbedr. Mae wedi ei ganlyn gan y Parch. D. Evans, B.A., ac y mae yn llawenydd genym fod y gynnulleidfa yn gwella dan ei weinidogaeth addfed. Yn Nghaerfyrddin mae y Dr. Vance Smith wedi cymmeryd y pwlpud ar symmudiad y Parch. J. G. Evans i Preston, ac y mae cychwyniad newydd wedi ei roddi i'n hachos trwy gyfres o ddarlithiau a draddodwyd yno ar y Beibl, Cosp Ddyfodol, &c. Cafwyd cyfarfodydd lluosog iawn i wrando y darlithiau yma, y rhai a fuont yn achos gohebiaeth dra bywiog cyd-rhwng y Dr. Smith a gweinidog Wesleyaidd ac ereill. Yr ydys yn gobeithio y llwydda y mudiad hwn i ddwyn allan yr elfen guddiedig hono o ryddfrydiaeth a wyddis fod yn ffynu yn y dref, ond yr hon nid yw hyd yma wedi cymmeryd arni yr enw Undodiaeth. Mae y gynnulleidfa yn Rhydyparc, capel tua deng milldir o Gaerfyrddin, er heb weinidog oddiar marwolaeth y Parch. Titus Evans yn 1863, yn parhau o hyd yn dra blodeuog. Cynnelir y gwasanaeth bob pythefnos gyda chynnorthwy *supplies* o Sir Aberteifi a Choleg Caerfyrddin. Gyda gweinidog bywiog a gymmerai St. Clears dan ei ofal, a chydag ychydig help oddiwrth y Gymdeithas, gallesid ffurfio cynnulleidfa gref yn Rhydyparc, yr hon a ddeuai yn fuan yn ddigon cryf i gynnal ei hunan. Yn Morganwg, o herwydd sefyllfa isel masnach, a'r symmudiad o ganlyniad, o lawer o deuluoedd, y rhai ydynt wedi gorfod myned i chwilio am well gwaith, nid yw ein cynnulleidfaoedd ond yn brin yn dal eu tir. Yn Aberdar, y mae genym dri o gapelau, ac mae'r achos crybwylledig wedi effeithio yn fawr i deneuo ein gwrandawyr, ac i raddau gellir dywedyd yr un peth am Merthyr, Cefncoed, a'r Gellionen. Yn Awst diweddaf (1877), ymsefydlodd y Parch. J. H. Davies, fel gweinidog yn Cefncoed. Yn y gauaf, traddododd gyfres o ddarlithiau, y rhai a dynasant lawer o sylw, ac a fuont yn achos llawer o ymofyniad. Nid yw y Nottais a'r Wig, y rhai ydynt dan weinidogaeth patriarch Undodiaeth Gymreig, sef y Parch. T. Lloyd ddim yn dyfod dan y dylanwadau anffafriol a ffynant mewn lleoedd ereill. Nid oes dim lleihad i'w gofnodi mewn cyssylltiad â hwy, ac y mae'r Nottais yn neillduol yn ymlawenhau mewn cynnydd rhif ac mewn bywyd adnewyddol. Cynnelir gwasanaeth bob pythefnos yn Nhreorci yn Nghwm Rhondda, ond ofnir nad yw y rhagolygon yn gyfryw ag i annog yr ychydig Undodiaid gwresog ydynt yno i gymmeryd at adeiladu capel. Yn ffodus nis gellir dywedyd yr un peth am Dowlais, lle arall a ymwelai y Parch. John Davies ag ef yn rheolaidd yn ystod ei deithiau cenadol yn 1875—1876.

Mae y profiad sydd wedi ei gael oddiwrth gynnal gwasanaeth pythefnosol yn y cyfamser wedi dangos cymmaint o lwyddiant, fel y mae arweinwyr y mudiad yno wedi cael digon o gefnogaeth i wneuthur ymdrech i godi capel. Yr ydys wedi prynu'r tir, ac wedi gwneuthur trefniadau tuag at gario y gwaith yn y blaen, ac i sefydlu trysorfa adeiladu. Can belled ag mae a fyno sefyllfa masnachol, mae Dowlais yn mhell yn mlaen ar y trefydd cymmydogaethol; y mae y gweithfaoedd

haiarn ar y rhai y mae y lle yn benaf yn dybynu, yn cael eu cario yn y blaen bron mor fywiog ag erioed. Rhaid fod y cyfryw sefyllfa ar bethau yn galonogol iawn i'r rhai ydynt wedi gosod eu bryd ar gychwyn y mudiad Undodaidd yn Dowlais i derfyniad llwyddiannus. Cynnaliwyd y cyfarfodydd blynyddol yn Ebrill yn yr *Assembly Rooms*, a daeth yno dyrfaoedd mawrion, yn gynnwysedig o aelodau o bob enwad, i wrandaw ar Mr. Jones, Aberdar, Mr. Williams, Merthyr; Mr. Jones, Llanbedr, a Mr. Davies, Cefncoed. Yn ystod y flwyddyn cynnaliwyd y cyfarfodydd chwarterol yn Mhantydefaid, Panteg, Cefncoed, ac Abertawe. Cafwyd cynnulliadau lluosog, yn enwedig yn y ddau le blaenaf, ac yn mhob un o'r cynnadleddau ymdriniwyd â phynciau ag oeddynt yn ddyddorol iawn. Yn Abertawe yr oedd yn hyfrydwch gan y gweinidogion Cymreig i gael cyfleusdra i ffurfio cydnabyddiaeth agosach â'r gynnulleidfa Seisnig, a theimlent yn neillduol o falch i gael presenoldeb siriol, ac i gael clywed araeth galonogol Mr. Herbert New, Llywydd y Gymdeithas Undodaidd. Yr ydys yn gobeithio y gwna presenoldeb swyddog y Gymdeithas ffurfio esiampl a ddilynir mewn blynyddau dyfodol. Mae lleoedd ereill, megys Penybont a Chastellnedd, a garwn eu nodi, lle gallai llaw gynnorthwyol a meithrinol y Gymdeithas achub achos ar fin trengu, neu adfywio un sydd wedi trengu; ond i derfynu, gadawer i mi dynu sylw neillduol y *Committee* at Gaerdydd, y dref fwyaf, ni a gredwn, yn Nghymru a Lloegr heb eglwys Undodaidd. Dyma faes addawol, teilwng o gefnogaeth gwresog y Gymdeithas, ac yr wyf yn gobeithio y gwneir rhywbeth yn fuan ganddi hi mewn cyssylltiad â'r *Western Union* i gychwyn mudiad a wnaiff o leiaf roddi i Undodiaeth brawf teg yn mhlith trigolion Caerdydd."

UN O ANGENION EIN HYSGOLION SUL.

Mae yn ddiamheu fod arolygwyr ac athrawon ein Hysgolion Sul yn fynych yn teimlo yr angen sydd yn ein plith am lyfrau priodol i ddysgu darlleniad yr laith Gymraeg i blant, —llyfryn wedi ei ysgrifenu oddiar satle rydd ac ansectyddol, ac etto yn cynnwys, yn ychwanegol at elfenau darlleniad, addysgiadau o duedd i argraffu ar y galon ieuanc wersi pwysig moesoldeb a chrefydd. O herwydd y diffyg yma, gorfodir y rhan fwyaf o'n Hysgolion i ddefnyddio llyfrau megys "Egwyddorig" Hughes o Wrexham, &c., ydynt wedi eu darparu ar gyfer Ysgolion Sul y gwahanol enwadau uniawngred, ac yn arogli yn gryf o athrawiaethau ag mae Undodiaeth yn awr fel erioed yn protestio yn eu herbyn. Yn naturiol, ymddiriedir y dosparthiadau isaf yn yr Ysgol i athrawon ieuainc, y rhai nid ydynt ar y cyffredin yn rhy hyddysg yn egwyddorion Undodiaeth, nac yn alluog bob amser i "brofi yr ysprydion," a gallwn ddychymygu yr eflaith a gynnyrchir ar feddyliau ieuainc pan y darllenir yn y dosparth o Sul i Sul heb *note* na *comment*, y fath osod-

iadau ag a ganlyn o "Egwyddorig" Hughes o Wrexham, fel enghraifft: "Y mae yn wir Dduw ac yn wir ddyn, er hyn nid dau ond un Crist." "Crist yw yr iawn dros bechod." "Ni all dim dynu ein pechod ond ei waed ef." "Mae ffydd yn y Duw-ddyn yn rhodd rad Duw." "Tafl Duw bob un drwg i le y bydd ing byth." "Rhan ddrwg yw hon, mewn tân a nos ddu, lle mae och, &c., am byth," &c. Ac etto mae y llyfr yma yn cael ei ddefnyddio mewn llawer o'n Hysgolion. Mae lle i gredu fod ein tadau yn Nghymru yn fwy gofalus am yr athrawiaeth nag ydym ni eu plant, ac un prawf o hyn yw fod llyfryn o'r natur a grybwyllwyd ar y dechreu wedi ei barotoi ar gyfer Ysgol Sul Hen-dy-Cwrdd, Aberdar, mor bell yn ol a'r flwyddyn 1839, gan weinidog parchus y lle ar yr amser hwnw, y diweddar Barch. John Jones. Nid wyf yn gwybod fod y llyfr yn adnabyddus tuallan i Aberdar, ond nid oes eisieu ond ei adnabod er mwyn ei werthfawrogi. Mae'n llyfryn sydd yn hollol gymhwys at y perwyl, yn arweinydd hawdd i ddarlleniad y Gymraeg, ac yn cynnwys hanesion a darnau ereill o natur foesol a chrefyddol ydynt wedi profi yn ddyddorol ac yn adeiladol i lawer, ac yn sicr o fod felly etto. Mae'r argraffiad cyntaf wedi ei ddiyspyddu er ys amser, ac nid oes copiau ar law yn awr. Yn ddiweddar gwnawd symmudiad yn yr Hen-dy-Cwrdd i gael argraffiad newydd, ac mae Golygydd "Yr Ymofynydd," y person cymhwysaf ellid ei gael, gan ei fod, fel un rheswm, yn fab i'r awdwr gwreiddiol—wedi addaw ymgymmeryd â'r anturiaeth, ond iddo gael y gefnogaeth ofynol. Ond i ddigon o archebion ddyfod i mewn, fel y gellid argraffu ychydig filoedd, gellid eu gwerthu i Ysgolion yn rhad iawn; ac yr wyf yn gobeithio na fydd y cynllun daionus yma ddim i syrthio o herwydd diffyg cydweithrediad yn mysg ein Eglwysi. Yr wyf yn tybied y byddwn i gyd yn cytuno gyda golwg ar yr angen a deimlir, ac yr wyf yn hyderu hefyd y cytunwn i gyd i wneyd y ffordd i gyfarfod â'r angen yn effeithiol. Anfoner *orders* wrth y cannoedd at Olygydd "Yr Ymofynydd."

Hen-dy-Cwrdd, Aberdar, Tach. 11*eg*, 1878. W. James.

HANES Y CREAD FEL Y MAE YN CAEL EI DDYSGU GAN WYDDOR.*

Chwi wyddoch fod y ddaear yn un o nifer o *blanedau* (a elwir felly oddiwrth air Groeg yn arwyddo *crwydro*), y rhai, gyda chyrff ereill, ydynt yn teithio o amgylch yr haul, gan mai efe yw canolbwynt y gyfundrefn heulog. Dywed llyfrau ar seryddiaeth wrthych fod pob seren yn haul, yn ganolbwynt cyfundrefn heulog, a bod ein haul ni yn ymddangos

---

* Cymmerir y bennod yma allan o lyfryn dyddorol iawn o waith Ed. Clodd, sef *Childhood of Religions.* Nid yw ei bris ond 1/6, a chymhellwn ef i sylw darllenwyr Yr Ymofynydd.

mor fawr ac mor ddysglaer am ei fod yr agosaf atom. Credir fod y rhanau bychain o ddefnydd a gyfansoddant y gyfundrefn heulog (ac y mae hyn yn wir am bob cyfundrefn heulog arall) unwaith mewn cyflwr tebyg i nwy, ac yn y cyfwng anferth dros yr hwn yr oeddynt yn wasgaredig, mor bell oddiwrth eu gilydd fel ag i fod mewn gorphwysfa. Yn ystod oesau dirifedi darfu i'r pentwr aruthrol oeri trwy belydriad neu ollyngiad o wres allan, a dygwyd y rhanau bychain at eu gilydd, ac i fath o symmudiad chwyldroawl fel y daethant yn fath o belen fawr ddysglaer eiriasboeth. Cyflymwyd y symmudiad fel yr oedd y rhanau bychain yn dyfod yn fwy unedig, ond pan oedd y gallu a'u hysgubai heibio i ganolbwynt y cyfangorff yn fwy nâ'r gallu a'u tynent tuag ato, taflid cylchoedd o'r rhan allanol i ffwrdd un ar ol y llall, y rhai barhasant symmudiad chwyldroawl y cyfangorff oddiwrth yr hwn y bwriwyd hwy. Darfu i'r cylchoedd yma drachefn dori yn y manau hyny lle yr oedd y rhanau bychain yma wedi ymgasglu fwyaf, a'r darnau yma etto yn chwyldroi a ymgasglasant bob un o amgylch i'w ganolbwynt, ac a daflasant ymaith gylchoedd yn yr un modd. Y belen fawr yn nghanol yr oll a ddaeth yn *haul*, a'r darnau cylchol a ddaethant yn *blanedau*, gyda'u symmudiad deublyg, un megys top, a'r llall oddiamgylch i'r haul, a'r cylchoedd a daflwyd oddiwrthynt hwy a ddaethant yn lleuadau iddynt, ac yr oedd pob un o'r cyrff hyn mewn cyflwr toddedig. Mewn perthynas i Sadwrn, nid yn unig ffurfiwyd wyth lleuad, ond y mae yn aros yn chwyldroi oddiamgylch iddo y cylchoedd a chwanegant gymmaint at ei brydferthwch a'r rhai a ddywedir eu bod wedi eu gwneuthur i fyny o gyrff dirif.

Digon 'tebyg fod y comedau a'r ffrydiau goruchion (*meteors*) a berthynant i'n cyfundrefn heulog yn ddarnau yn gorwedd y tuallan ac yn rhanau llai o'r cylchoedd toredig. Daeth pob corff i ffurf pêl neu globyn, mewn ufudd-dod i gyfraith y bydysawd, a adwaenir fel *sygndyniad*. Dyma'r gyfraith trwy yr hon y mae y gwlithyn, y deigryn sydd yn syrthio o'r llygad, y plwm toddedig a ollyngir i lawr o ben y twr lle y gwneir y *shots*, yn dyfod yn grwn. Mae y corffilynau bychain yn tynu yn agosach at eu gilydd, ac wrth wneuthur felly yn ymdrefnu o amgylch y canolbwynt at yr hwn y maent yn cael eu *sygndynu*. Mae yn help pwysig tuag at gael deall clir o hanes y ddaear, i wybod pa sail sydd i'r gosodiad fod pob corff o'r gyfundrefn heulog mewn cyflwr toddedig. Yn awr, y mae rhyw alluoedd yn natur megys goleuni, gwres, yr elfen drydanol, &c., ac y mae pob un o honynt yn gallu cynnyrchu a chael ei gynnyrchu gan y llall. Oddiwrth hyn yr ydys wedi casglu nad ydynt ond ffurfiau neu ddulliau gwahanol o un gallu anadnabyddus nas gellir ei ddinystrio. Fel eglurhad o'r hyn a feddylir, tybier fod *spire* clochdy eglwys wedi ei daro gan fellten, neidiodd y gallu allan o'r cwmmwl at y *spire* fel *goleuni*; rhedodd i waered ar hyd y wifren fel trydan (*electricity*); toddodd ef fel *gwres*; yna twriodd trwy y cerryg nes dyfod at y metel drachefn gan hollti y cerryg fel *symmudiad*. Cafodd y metel, a rhedodd i waered iddo yn ddiniwed fel *trydan*, ond yn newid, yn ei lwybr wrth bob tebyg, sefyllfa y naill tuag at y llall o'r mymrynau a gyfansoddent y metel, fel *magnetiaeth*; yna

holltodd trwy y cerryg drachefn fel *symmudiad*, gan niweidio y *spire* ben bwygilydd, fel y gorfuwyd ei dynu i lawr a'i ail-adeiladu.

Nid yw gwres gan hyny yn hanfod, yn hylif teneu fel y tybid unwaith, ond symmudiad yn mhlith y mymrynau defnydd. Nid yw cyrff yn dyfod yn drymach o'u gwresogi, ond deuant yn fwy; hyny yw, gyra'r gwres y mymrynau oddiwrth eu gilydd fel y mae y lle gwag rhyngddynt yn ymeangu a'r corff yn cymmeryd i fyny fwy o le. O herwydd gwybod hyn y mae y gof cyn gosod cylch ar gasgen neu ar *wheel* yn ei wneuthur yn boethgoch. Mae y gwres yn ei eangu, ac fel y mae yn oeri mae yn ymgrynhoi ac yn tynhau o amgylch y gasgen neu y *wheel*. A gwyddoch y gellir gosod dau ddernyn o bren sych ar dân wrth eu rhwbio yn eu gilydd, ac y gellir toddi dau damaid o ia yn yr un modd, yr hyn a brawf fod gwres yn fath o symmudiad.

Cynnyrchwyd *gwres* aruthrol pob corff yn y gyfundrefn heulog trwy fod mymrynau yn ymdaro ar draws eu gilydd fel yr oeddynt yn cael eu gyru yn nghyd gan allu *syndyniad*. Ceir prawf arall i'r ddaear fod unwaith mewn cyflwr tyner neu doddedig yn ei ffurf. Nid yw yn gwbl grwn ond megys wedi ei gwasgu yn nghyd ychydig wrth y pegynau, yr hyn a achoswyd trwy fod mewn cyflwr hylif yn chwyldroi megys top. Fel eglurhad o hyn, gwnaiff telpyn o glai tyner iawn neu swmp o olew yn nofio mewn hylif o'r un dwysder (neu o gyffelyb bwysau corff am gorff), pan droir ef o amgylch fyned yn *flat* yn y pegynau yn debyg i'r ddaear.

Etto, mae y creigiau a ffurfiant ran o orchudd allanol caled y ddaear a adwaenir fel y crwstyn, y rhai ydynt wedi eu toddi yn nghyd gan dân, yn profi fod y gwres mwyaf angerddol wedi bod yn ffynu un amser.

Mae pob corff poeth nad yw yn derbyn gwres yn myned yn oer; hyny yw, yn colli ei wres; pa fwyaf fo'r corff hwyaf y cymmer i oeri, yr allanol yn oeri o flaen y canol. Mae yr haul yn gorff mor fawr fel y mae yn parhau yn wynboeth etto, gan roddi allan wres a goleuni, a galluoedd ereill. Y lleuadau, gan eu bod y cyrff lleiaf, oeddynt gyntaf i oeri; yna'r planedau bychain, hyd oni ddeuwn at Iau a Sadwrn, y rhai, er dim a wyddom ni, ydynt etto yn arllwys peth goleuni a gwres ar eu lleuadau. Gan fod pob planed un amser yn haul, bu amser (nad yw i'w gyfrif wrth flynyddau), pan oedd y ddaear yn rhoddi allan oleuni a gwres, ac o bossibl yn cynnal bywyd, ar y lleuad sydd yn awr yn ddi-awyr ac yn ddi-fôr.

Ac er fod crwstyn y ddaear wedi dyfod yn oer ac yn galed oesoedd dirifedi yn ol, y mae etto stor o wres isod, sydd yn dangos ei allu yn y *volcano* sydd yn chwydu allan ei ffrydiau lava, yn y ddaeargryn sydd yn siglo dinasoedd mawrion i lawr, ac yn claddu eu pobl yn eu hadfeilion; ac yn y ffynnonau poethion o'r rhai, yn benaf yn Iceland, y teflir sgydau o ddwfr berwedig i uchder mawr. Mae y pyllau dyfnaf y rhai mewn cymhariaeth i drwch y ddaear nid ydynt ond megys crafiadau ewin ar *globe* ysgol, mor boeth fel oni bai y ffrydiau o awyr ffres ni allai y mwnwyr weithio ynddynt. Mae y stor yma o wres yn araf ond sicr yn slipio i ffwrdd fel y daw y ddaear yn y diwedd yn oer hyd

at ei chanol. Mewn gair, yr hyn yw yr haul, yr oedd y ddaear filiynau o flynyddau yn ol, a'r hyn yw y lleuad yn awr fe fydd y ddaear filiynau o flynyddau i ddod, pan fydd y blodau yn arogli a'r plant yn chwareu mewn rhyw fan arall.

Pan yr oedd y ddaear yn belen doddedig, yr oedd cylchoedd o darth o amgylch iddi, y rhai yn raddol a dewychasant ac a syrthiasant fel dwfr i'r dyffrynoedd a'r holltiadau a'r rhanau isaf o'r crwstyn, gan ffurfio trwy hyny afon a mor ac eigion.

O berthynas i'r dull trwy yr hwn, fel yr oedd yr oeri yma yn myned yn y blaen, y syrthiodd o'r cylchoedd wahanol sylweddau, y rhai a helpiasant i barotoi'r ddaear er cynnal y bywyd oedd i ymddangos arni, ac mewn perthynas i'r syniadau a goleddir am drwch y crwstyn a natur y sylwedd odditano, nis gallaf siarad yma. Nid yw y rhai hyn ond dyfaliadau y doethion, y rhai allant fod yn wir neu beidio, ac y mae genym eisoes fwy, o'r hyn a wyddys ei fod yn wir, nag a all y bennod yma ei gynnwys.

Gwneir crwstyn y ddaear i fyny o greigiau o lawer math ac oes, ac oll o honynt wedi eu gosod i lawr gan ddwfr, neu wedi eu toddi a'u cymmysgu gan dân. O'r rhai blaenaf, cyfansoddir rhai o ronynau o wahanol gerryg, ac ereill, i raddau mwy neu lai, o weddillion anifeiliaid a phlanhigion ag oeddynt unwaith yn fyw; nid yw y creigiau toddedig yn cynnwys dim olion o'r fath weddillion. Y crwstyn yma sydd yn adrodd i ni mor sicr hanes y cyfnewidiadau aruthrol ydynt wedi cymmeryd lle ar y ddaear, ac ydynt etto yn myned yn mlaen; sut y mae y gwres oddifewn yn rhwygo y wyneb mewn un man, neu yn ei godi neu ei ostwng mewn man arall; sut y mae pob ffrwd a chornant fechan yn gwneuthur ei rhan mewn cyfnewid arwyneb pethau, gan gludo pridd i'r mor, yr hwn â'i gylla newynog sydd yn bwyta i ffwrdd greigiau'r arfordir, yn nghyd â rhanau tynerach y tir; sut, mewn canlyniad i hyn, y mae cyfandiroedd ac ynysoedd newyddion yn raddol ymgodi o'r eigion, ryw ddydd i gael ei gwaddoli â rhoddion cyfoethocaf natur, a'u mannodi gan bentrefi a dinasoedd, a dyfod yn lle genedigol rhyfeddodau na freuddwydiwyd am danynt, y rhai y gwnaiff yspryd dyn eu dadguddio; pan y gwnaiff y mor yntau yn ei dro guddio cartrefi dedwydd, tiroedd ydynt yn awr y mwyaf heulog. Mae hyn oll tu hwnt i amheuaeth, gan nad oes dim gorphwys yn natur, dim hyd y nod yn y pethau a ymddangosant fwyaf digyffro a difywyd; mae y mymrynau a wnant garreg i fyny, wrth bob tebyg, mewn cyffro parhaus, fel y gwyddom fod mymrynau y magnet. Dywed Proffessor Huxley, wrth ddesgrifio symmudiadau rhyfeddol cyrff bychain a dramwyant drwy yr hylif yn mlew y ddynadlen gyffredin yn debyg fel mae corffilynau a nofiant yn ein gwaed gan adnewyddu y traul ddibaid sydd ar ein cyrff:—Pe gallai ein clustiau ond dal murmur y ffrydiau a chwyrnellant yn y celloedd a wnant i fyny bob coeden, y caem ein syfrdanu megys gan ddwndwr dinas fawr. Fel eglurhad, fod gwyneb y ddaear o hyd yn cyfnewid, wrth ystyried ei chrwstyn a gwneuthur ymchwiliadau i ddyfnderoedd ei mor, dywedir wrthym fod ein hynys ein hunain wedi bod yn gladdedig fwy nag unwaith o dan y dwr,

Oddiar y gwnaeth dyn ei ymddangosiad mae y rhan fwyaf o'r ynysoedd Prydeinig, o ganolbarth Ewrop, gogledd America, a gogledd Asia wedi bod dan y mor; a'r Caspia a'r Aral wedi eu huno yn un mor mawr. Dywed hen chwedl am ynys golledig o'r enw Atlantis a osodwyd gan Plato yn y gorllewin i Golofnau Hercwlff yn yr Atlantic, a gwyddom fod ynysoedd y Canary a'r Azores yn gopaäu uwchaf cyfandir sydd yn awr dan y dwr. Yr ydys eisioes wedi rhoi enw i wlad sydd wedi diflanu, a estynai unwaith o arfordir dwyreiniol Affrig. O'r wlad yma, yr hon wrth bob tebyg oedd lle genedigol dynolryw, y mae Madagascar, Ceylon, ac ynysoedd ereill i'r gogledd-ddwyreiniol yn mhell feallai i'r Mor Tawelog yn rhanau heb eu claddu. Yr oedd anialwch y Sahara unwaith wedi ei guddio gan for, tonau yr hwn a dorent ar draws mynyddoedd gogledd Affrica; ac y mae amser wedi bod pan oedd y mynyddoedd hyny wedi eu huno ag Ewrop.

Ni wyr neb faint o amser a basiodd rhwng cyfiwr toddedig y ddaear a'r ymddangosiad o ffurfiau cyntaf planhigion a bywyd anifeiliaid arni. Fod miliynau annrhaethol o flynyddau wedi treiglo ymaith cyn i'r crwstyn oeri digon i ganiatau i'r tarth uwchben i syrthio fel dwfr, sydd sicr, ac hyd y nod wedi hyny dichon fod oesau wedi pasio cyn fod dim ond y rhywiau mwyaf bychain o fywyd yn dechreu bod. Yr oll y gall athronwyr wneuthur yw dyfod at ryw ddychymyg am yr amser a gymmerwyd i ffurfio rhyw drwch rhoddedig o haenau neilldduol o graig.

Er enghraifft: mae rhan fawr o grwstyn y ddaear yn gynnwysedig o sialc, yr hwn sydd wedi ei wneuthur i fyny o gregyn creaduriaid bychain iawn, y rhai ydynt yn byw ac yn marw o dan y dwr, creaduriaid o fath ag ydynt yn bresenol yn ffurfio gwelïau o sialc ar waelod ein moroedd. Ni wneir troedfedd o drwch o sialc mewn llai na chan mlynedd o amser. Tebyg yw eu bod yn cymmeryd llawer yn rhagor, ac felly gan fod y gwelïau sialc yn rhai parthau o Loegr yn fwy nâ mil o droedfeddi o drwch, gallwn yn ddyogel gyfrif nad oedd dim llai nâ chan mil o flynyddoedd yn myned i'w ffurfio. Ac fel y gwnaiff unrhyw daflen o grwstyn y ddaear ddangos i chwi, y mae creigiau uwch ac islaw y sialc, y rhai yr oeddynt yn gofyn miliynau i'w ffurfio. Dichon y fath feithder aruthrol o amser ein cynhyrfu ni, i'r rhai nid oes ond ychydig flynyddoedd o fywyd yn cael eu rhoddi yma, ond ni chyfrifant gydag Ef yr Hwn sydd o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb, a'r Hwn sydd yn gweithio trwy'r oesau, sydd wedi peri i'r ddaear yma gynnyrchu y fath amrywiaeth gyfoethog nas dichon amser ei ddeifio, a'r amrywiaeth hwnw hefyd o ychydig ddefnyddiau, oblegyd mae y cyrff a drigwn ynddynt, yr awyr a anadlwn, y dwfr a yfwn, a phob anifail, coeden, a blodeuyn, gan mwyaf wedi eu ffurfio o dri nwy a adwaenir genym fel oxygen, hydrogen, a nitrogen, bob un ar ei ben ei hun yn anweledig, heb flas ac heb arogl. Ffurfia oxygen dair rhan o bedair o grwstyn uchaf y ddaear.

Wrth ddarllen yr enwau yma a'r enwau a roddir i bethau ereill ceisiwch bob amser y rheswm paham maent wedi eu dewis, ond cofiwch ar yr un pryd nas gwyddom ddim mewn perthynas i'r hyn ydynt

ynddynt eu hunain, ac arbeda hyn chwi rhag llawer camsyniad ymffrostfawr o feddwl eich bod yn gwybod yr oll am beth oblegyd eich bod wedi dysgu ei enw. Yr wyf yn gobeithio yn awr fod yr haul a'r holl gyrff yn ei gyfundrefn yn gyfansoddedig o'r un defnyddiau, a thrwy gynnorthwy offeryn a elwir *spectroscope*, yr hwn sydd yn galluogi seryddwyr i wneuthur prawfiadau ar y goleuni a'r ser, nad oes waeth pa gymmaint o flynyddau y maent wedi bod yn teithio at y ddaear, maent yn alluog i ddywedyd pa feteloedd sydd yn llosgi yn y cyrff pellenig draw, ac y maent yn cael fod y defnyddiau ydynt yn fwyaf helaeth yn y ser yr un a'r defnyddiau ydynt yn myned i wneuthur i fyny ran gymmaint o gyfansoddiad creaduriad byw ar y ddaear.

Nid dyfaliad dall gan hyny ond gwirionedd a digon o brawf drosto yw, fod defnydd trwy yr oll o fydysawd Duw yr un fath ond mewn gwahanol gyflyrau. Yn yr haul a'i gyd-heuliau, y ser, mae yn wynias. Ar y ddaear a rhai ereill o'r planedau (Mawrth, er enghraifft, ar yr hon y dengys *telescope* da, yn amlwg, raniadau y tir a'r dwfr, a'r cynnydd o eira wrth y pegynau pan fo'r gauaf yn nesu) mae yn ddigon oer i gynnal bywyd; yn y lleuad a'r *meteors* mae yn oer ac yn anffrwythlawn, tra yn y sypiau cymmylog yn yr awyr a elwir *nebulae* (nifwl) mae mewn cyflwr tebyg i nwy.

Wedi dywedyd cymmaint, byddai angen dywedyd llawer rhagor, ond nid wyf ond actio megys *fingerpost* i nodi allan y llwybr iawn yn yr hwn y gellir cael gwybodaeth gywir am hanes y byd hwn. Nid oes angen i chwi feddwl y dysgir y wers yn fuan iawn, neu y bydd y wybodaeth yn gyflawn yma. Nis dichon gwyddor ddywedyd wrthym yr oll y carem wybod, neu ein arwain tuhwnt i'r llen "lle mae dynion yn myned yn ddall, er fod angylion yn gwybod y gweddill." Mae yr hyn oedd gynt ond megys cwmwl yn dyfod yn belen oer, yn fyd teg a ffrwythlon wedi ei roddi i ddyn yn lle i drigo ynddo, yn Eden mewn gwirionedd, *gwlad o hyfrydwch* lle yr oedd yr awel dyner yn cael ei chludo yn llwythog ag arogl y blodau pereiddiaf, lle yr oedd yr adar yn telori eu cerddoriaeth carwriaethol, a'r ffrwd yn murmur ei diolch am y gemau a fwriai'r heul-belydrau ar ei mynwes.

Gohebiaethau.

Y GYFEILLACH EGLWYSIG *(SOCIETY)*.

MR. GOL.—

Drwg genyf ddywedyd, ond yr wyf yn credu fod yr Undodiaid fel enwad yn talu llai o sylw i'r hyn sydd genym mewn llaw nag un enwad crefyddol arall, sef y cyfarfodydd gweddi, &c., yn ystod yr wythnos, yr ydwyf fy hun fel un yn proffesu Undodiaeth wrth ystyried y diflasdod a'r diofalwch sydd arnom, yn teimlo fod rhyw anhawsdra

i'r achos fyned yn y blaen fel ag y dylai, trwy ein bod fel enwad, os goddefwch yr ymadrodd, yn ddiog iawn i raddau helaeth, mewn pethau ag sydd yn perthyn i'r eglwys, ac yn wir angenrheidiol. Mae rhywbeth yn oer yn yr achos, ond mae'n wir fod ambell un gweithgar yn cymmeryd y gwaith arno yn drwm, ac mae hyny yn peri i'r achos fyned yn mlaen ychydig yn fwy llwyddiannus. Hefyd, y mae diffyg mawr yn tynu'n ol yn ein heglwysi, lawer tro, o eisieu personau yn alluog i gynnal cyfarfodydd gweddi, ambell waith, o herwydd absenoldeb y gweinidog, trwy afiechyd neu ryw achos arall o'r fath, 'Nawr nid yw y bobl ieuainc yn cael cefnogaeth, na chynnefindra i gymmeryd at y gwaith, a hyny o herwydd nad ydynt erioed wedi cael eu harfer i fynychu cyfarfodydd o'r fath, a phan wedi cyrhaedd oedran y maent yn teimlo y gwaith yn faich yn hytrach na phleser, a syniad dyledswydd. Am hyny, mae yn llawn bryd i ni ddeffroi o'n cysgadrwydd, ac i ysgwyd ffwrdd y bwbach, a phenderfynu na fydd mwyach yspryd gwawd o amgylch ein cyfeillion. Ni ddylem lochesu tyb o'r fath, fod pob peth i ddisgyn ar gefn y gweinidog i'w gyflawnu, ond bydded i ninau wneuthur ein goreu, ac i wrteithio ein hunain fel y byddom yn alluog i fyned yn mlaen â'r gwaith pan y bydd angen yn gofyn am hyny; a phe byddai pob un yn gwneuthur ei oreu, yr ydwyf yn credu ac yn gwybod y byddai Undodiaeth yn cyrhaedd cylch llawer mwy helaeth. Hefyd, ni hoffwn basio heibio heb sylwi ar hyn, yr ydwyf yn gwybod am lawer eglwys, yn Sir Aberteifi yn enwedig, nad oes cyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnal, ond rhyw unwaith yn y mis fel ei galwn yn gwrdd parotoad, ac ychydig iawn fynychaf sydd yn ei fynychu, a'r achos fe ddichon o hyny yw, diffyg dealldwriaeth, ac feallai fod rhai o'r aelodau yn annghofio yn ystod y mis pa bryd mae y cwrdd i fod. Hoffwn yn fawr weled yr Undodiaid yn mudo pethau o'r fath. Ond mae yn hawdd i ni dybio am grefyddwyr heb ddim o'r pethau a gyfrifwn fel yn perthyn i gyfeillach eglwysig ynddo, fel y dywedwn; y mae ganddo enw o fod yn fyw, ond marw ydyw; ïe, hollol farw i gyfeillach grefyddol. Mae mor lleied o ddefnyddiau cyfeillach yn yr eglwys yn y blynyddoedd araf a digyffro crefyddol hyn, nes y mae yn brofedigaeth iddi ddwyn gwaith arall i mewn; byddai yn hoff, ac yn hoff iawn genyf, o weled cyfeillach un neu ddwy waith yn yr wythnos i drin achos yr eglwys, neu gael rhyw destyn i lawr wythnos yn mlaen, ac yna bydd i'r gyfeillach gyfarfod i wneyd eglurhad arno. Digon possibl feallai fyddai colli y syniad iawn am briodol waith cyfeillach grefyddol, ac i luaws o bobl ieuainc godi yn yr eglwysi ac yn cael eu magu rhywlun gan grefyddwr o sel isel, ac heb fod mewn *Society* erioed. Clywais ddyweyd gan gyfaill yn ddiweddar, pe caem lai lawer o fydolrwydd, balchder, hunanoldeb, &c., a llai o'r menyg *kid*, a mwy o ddwylaw noeth; llai o'r *Standby Ties*, a mwy o gliniau plygedig, a llai o'r *Silk Tongues* yna, a mwy o onestrwydd a geirwiredd, &c., ni a gaem etto yn ol y gogoniant hwnw sydd, i raddau galarus, wedi ein gadael. Gobeithio gan hyny y bydd i bawb gymmeryd yr hint i'w hystyriaeth, ac i daflu'r diflasdod yna o'r neilldu, a thorchi'r llewys, a chydweithio gyda phleser, ac ymroddi i addysgu

ein gilydd yn y gwirioneddau hyny sydd i'w cael mewn Undodiaeth, nid yn unig fe gawn ein talu yn y byd hwn, ond cawn hefyd ein talu am ein llafur mewn byd tu draw i afon angau a'r bedd. Bydded i ni oll ynte weithio tra mae yn ddydd, o herwydd mae y nos yn dyfod pryd na ddichon neb weithio.

Llanbedr. E. P. Jones.

AT WEINIDOGION YR UNDODIAID.

Gan fy mod mor chwanog o edrych ar y brychau sydd yn llygaid fy mrodyr, heb ofalu yn y mesur lleiaf am y trawst sydd yn fy llygad fy hun, wele fi yn gosod y brychau o flaen llygaid y cyhoedd, rhag ofn fod fy llygad i yn ddrwg, am eu bod hwy yn dda. Yr ydwyf fi wedi trafaelu llawer o Gymru, a rhan o Loegr, ac wedi gweled llawer o ffasiynau gan lawer o weinidogion, o amryw enwadau; gwelais lawer o honynt yn dyfod i wyl-nosau, hyd yn nod offeiriaid, ac yn ceisio gan ddau neu dri o henuriaid eu heglwys i fyned i waith yno. A welaist ti, ddarllenydd, un o weinidogion yr Undodiaid erioed yn gwneuthur felly? Nis gwelais i, ond ni welais i nemawr o wylnos erioed gan yr Undodiaid, oddieithr i ryw un o deulu ariangar syrthio, a bod y teulu hwnw yn galw'r gweinidog y noson flaenorol i'r cyn-hebrwng, ond nis gwelais ef erioed yn gofyn i un o'i ddefaid gymmeryd rhan yn y gwaith. Nis gwn a welaist ti,ddarllenydd, a'i peidio. Gwelais lawer o weinidogion o enwadau ereill yn dyfod i'r capeli ar y Sabboth, ac yn gofyn i ryw un nesaf at law, ddechreu y cyfarfod, tra y buasai yntau yn cael mynud o hamdden i sychu rhywfaint o'i chwys. Yr ydwyf yn credu fy mod i yn arfer mynychu'r capel a'r gwylnosau can amled a'r cyffredin yn fy nghymmydogaeth, o fewn y deugain mlynedd diweddaf yma, ac onid yw yn beth syn fy mod wedi cyrhaedd gwth o oedran heb weled un o'r pethau hyn yn cymmeryd lle gan un gweinidog Undodaidd erioed. Mae llawer o ofyn ar hyd a lled y wlad, 'nawr ac yn y man, paham na bae Undodiaeth yn cynnyddu mwy? Bydd rhai yn taflu yr esgus hyn, a'r lleill yr esgus arall, nes ydynt yn ddigon i syfrdanu fy myfyrdod lawer tro, ac nid oes llawer o fisoedd wedi myned heibio oddiar pan y clywais un o weinidogion yr enwad yn traethu ei farn dros gadair-ymadrodd yn rhyw fan, mai rhy fach o aur oeddent hwy yn gael; ond yr wyf fi yn ateb y farn yna yn bendant, na waeth iddynt yn y byd faint o aur a gaffont, pe baent yn cael bwsel yn y mis, oddieithr iddynt hwy gael gan eu cynnulleidfaoedd i weithio rhywfaint gyda hwy eu hunain; heblaw hyny ni fydd eu clych ond megys efydd yn seinio neu symbal yn tincian; a phaham na chofient,

> "Ddarfod i'r bugeilydd gorau,
> Yru'r cŵn i hwylia weithiau."

Hynyna y tro hwn, ac oni effeithia, cewch ragor etto gan bwyll.

Hebog.

Hanesion.

CAERONEN.—Cynnaliodd y brodyr yn y lle uchod eu Gwyl De flynyddol, Hydref 21ain, yn Wern Cottage, Cellan. Gweinyddwyd wrth y byrddau gan y boneddigesau arferol. Yn y Capel, yn yr hwyr, er fod yr hin yn hynod anffafriol, cafwyd cyfarfod cyhoeddus hynod hapus. Yr oedd y canu a'r adrodd ar y cyfan yn dda iawn. Cafwyd hefyd araeth dda, ddoniol, ac yn agos i'r diwedd, gan y brawd Captain Davies, Llanarth.

TRWY ryw amryfusedd gadawyd allan enw y Parch. John Davies, Alltyplaca, yn hanes y Cwrdd Chwarterol yn y Cribin. Darfu iddo ddechreu un o'r cyfarfodydd.

AR yr 8fed o Fedi, gwrthododd offeiriad Grimstone, Leiceistershire, gladdu un Mrs. Preston, am ei bod yn Wesleyad. Y Sul canlynol, dilynodd torf yr offeiriad, yn curo padelli tin, &c.

NOS Sul, Tachwedd 3ydd, fel yr oedd y Parch. J. Gwenogfryn Evans yn dychwelyd o'i gapel (yn Preston y mae yn awr) ymosodwyd arno gan ddau ddyn ieuanc mewn gwisgoedd trwsiadus. Tarawyd ef yn gyntaf ar ei wyneb â chareg, nes achosi clwyf y gorfu i'r meddyg ei wnio. Yna ceisiwyd ei labyddio, ond ni allwyd gwneuthur llawer o niwed yn rhagor iddo; yr oedd Mr. Evans yn amddiffyn ei hun â'i ffon, ac wrth gwrs yn gwaeddi am help. Tarawodd het un o honynt i ffwrdd, fel y gorfu arno fyned ymaith hebddi. Y farn gyffredin ar y cyntaf oedd mai amcanu am yspail yr oeddynt, ond y farn yn awr yw mai camsynied eu dyn a wnaethant. Cynygir deg punt o wobr am eu dal.

YN y *Times* am Awst 19, ceir hanes am offeiriad (y Parch. R. Arrowsmith, Stoke, ger Coventry) yn gwrthod gwasanaethu ac yn rhwystro neb arall i wasanaethu yn angladd plentyn bach oedd heb ei fedyddio. Nid yw yn debyg y bydd yr un bach ddim gwaeth, ond y mae peth fel yma yn annymunol iawn. Cynnaliwyd gwasanaeth mewn capel annibynol ger llaw. Ysgrifenodd y ficer i achwyn am y cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r mater, ac i fwrw y bai ar y gyfraith. Buasai ei esgusawd yn burion oni bai gwybod o honom mai efe a rhai tebyg iddo ydynt y rhwystrau ar ffordd newid y gyfraith a'i gwneuthur yn gydweddol ag ysprydd Cristionogaeth.

YR oedd plentyn bach yn ddiweddar yn *witness* mewn cwrt. Gofynodd y cyfreithiwr gwrthwynebol iddi os gwyddai i ba le yr oedd y rhai a ddywedent anwiredd yn cael myned pan fyd lent farw, a gwrthwynebodd i'w thystiolaeth am iddi ateb Na. "Wel," meddai y barnwr, "nid yw y cwestiwn yna ddim wedi ei benderfynu yn foddhaol iawn gan neb."

Y *World* sydd yn atebol am a ganlyn :—"Gwyr pawb mor hoff yw Arglwydd Beaconsfield o beri syndod. Darfu i un o'r rhai mwyaf deallus o'r Iuddewon ddywedyd wrthyf ychydig ddyddiau yn ol, 'Mae ganddo syndod mawr yn stor i chwi, a bydd yn weithred mwyaf ei fywyd. Efe a fydd farw yn Iuddew, a chaiff ei gladdu yn ymyl ei dad yn mynwent yr Iuddewon yn Mile-End. Cafodd ei fedyddio trwy dric o eiddo y bardd Rogers, ac nid oes un Iuddew yn onest yn yr ymwrthodiad o grefydd ei genedl. Yr wyf yn dywedyd wrthych y bydd farw yn Iuddew.' Mae rhywbeth i'w ddywedyd yn ffafr yr olwg yna; ond yr wyf yn meddwl fod swyn mwyaf Cristionogaeth yn ngolwg Arglwydd B., a'i gafael dyn arno, yn gynnwysedig yn y ffaith y mae ei hunan wedi ei nodi allan yn y 24 pennod o fywgraffiad Arglwydd George Bentinck, sef fod hanner y byd gwareiddiedig yn addoli Iuddew a'r hanner arall yn addoli Iuddewes. Rhaid i ddyn dan argraff mor ddwfn o'r syniad yna ag yw Arglwydd Beaconsfield, yn ddiambheu deimlo ei fod yn porthi ac yn gweneiethio i'w falchder cenedlig yn llawn ddigon i'w gadw yn ffyddlon i grefydd ei farchogaeth (*knighthood*) a'i wneuthur yn foddlon i gael ei gladdu gyda'i wraig, yn lle yn ymyl ei dad."

PAN geisiodd merch Herodias ben Ioan Fedyddiwr, efe a ocheneidiodd yn ddwfn ac a ddywedodd na allai dori ei lw. Dywedodd merch fach yn yr ysgol Sul yn ddiweddar ar ol bod yn darllen yr hanes, pe buasai hi wedi ceisio am ei ben ef ei hunan, ni theimlasai Herod dan orfod i gadw ei lw. Feallai nad oedd y ferch fach ddim yn mhell oddiwrth y gwir.

BU bwnc o ymddyddan gwresog yn Cromford yn ddiweddar, Pa un a gawsai Miss Dexter, ddysgu athrawiaeth y codwm i'r plant bach yn yr Infant School. Dywedodd y Parch. R. L. Lloyd, Belper, na wyddai hi ddim mwy am y pwnc na wyddai ei esgidiau ef, ac na wnaethai efe ganiatai iddi hi na neb arall ddysgu y fath athrawiaeth i blentyn o'i eiddo ef.

MAE un Mr. Crossley o Halifax wedi gosod microphon mewn pwlpud capel a'i gyssylltu a'i dŷ ei hun milldir o'r dref trwy offerynoliaeth y *telegraph wire*. Clywyd yn agos yr oll o'r gwasanaeth. Nid oes darfod ar ryfeddodau.

YN ystod y flwyddyn ddiweddaf gadawodd 13 o weinidogion yr Annibynwyr yr enwad hwnw yn yr Unol Daleithiau i ymuno â'r Undodiaid.

BARN gyffredin yn mhlith ysgrifenwyr yn Germany a'r Amerig yw, fod mwy o deby golrwydd y daw y Saesneg yn iaith y byd nag un arall sydd yn adnabyddus yn awr.

MAE Ustusiaid Accrington wedi dirwyo dau ddyn yn ddiweddar am dyngu a rhegu —swllt am bob llw. Mae digon o eisieu i Ustusiaid ymweled a rhai parthau o Gymru.

DYDD Sul, Hydref 20, gwnawd casgliad yn y capel Undodaidd yn Nghaerfyrddin at drysorfa Abercarn. Pregethwyd gan y gweinidog, Dr. Vance Smith—pregeth ysplenydd. O herwydd tywydd anffafriol nid oedd y gynnulleidfa ond bychan, etto casglwyd £2 18s.—D. AB IFAN.

PAN gyhoeddodd Dr. Farrar ei "Life of Christ" ychydig flynyddau yn ol, nid oedd dim yn rhy uchel i'w ddywedyd am dano; ond wedi cyhoeddi ei bregethau diweddar ar Y Gobaith Eangach (The Larger Hope), yn y rhai y mae wedi dywedyd rhai pethau cryfion yn erbyn athrawiaeth y poenau tragwyddol, y mae wedi syrthio yn fawr. O'r blaen yr oedd yn ysgolhaig enwog, nid yw yn awr ond dyn hyawdl.

PAHAM na ddefnyddir corganau (*chants*) yn ein capelau Cymreig? Byddent yn amrywiaeth hapus iawn.

Marwgofion.

Gorph. 16eg, yn 63 oed, ar ol hir nychdod o'r darfodedigaeth, Mr. Stephen Jones, Pantygronw, Ystrad. Yr oedd yn ddyn a gerid yn fawr gan bawb yn ei gymmydogaeth. Gadawodd weddw a dau fab a chwaer a llawer o gyfeillion mewn hiraeth ar ei ol. Yn y tŷ, cyn ei hebrwng i dy ei hir gartref yn mynwent y plwyf, pregethodd W. Rees, Rhydygwin, oddiwrth Esay xii. 2. i luaws o gyfeillion a pherthynasau a ddaethant i dalu y gymmwynas olaf iddo. Nerth a gelo ei weddw a'i blant i ymddiriied yn Nuw, a chredu ei fod yn peru y cyfan i fod yn y modd goreu.

Awst 28ain, yn 20 oed, Howel Morgan Howel, mab hynaf Mr. Edmund D. Howel, Goruchwyliwr yn Ngweithfa Haiarn Pentyrch, ger Caerdydd. Cafodd ei daraw a chlefyd trwm iawn "Inflammation of the brain," dim dros bum diwrnod o gystudd, ac ar yr 28ain diflanodd yr hyn oedd fywiol ymaith yn mlodau ei ddyddiau. Yr oedd yn fachgenyn tlws, gobeithiol, addawol, a sobr, ac yn llwyr ymataliwr o'i faboed, ac yn deilwng o efelychiad ieuenctyd yr ardal i ddilyn ei gamrau gwylaidd a dirodres. Yr oedd yn cyrchu i le o addoliad i gapel Bethlehem, Annibynwyr Pentyrch, ac er nad oedd yn aelod nid oedd neb yn fwy ffyddlon gyda'r achos; ac nid oedd un yn fwy ymdrechgar gyda'r "Band of Hope" a'r Ysgol Sul, ac ni fu fawr o weithiau yn eisiau yn ystod dwy flynedd o amser, a diamheu y teimlir colled ar ei ol i raddau pell. Meddai gymhwysder neilldual at Lenyddiaeth Seisnig, fel yr ennillodd wobr mewn cyfarfodydd cyssylltiadol a'r capel. Diau fod ei ymadawiad sydyn yn ergyd trwm i'w rieni parchus, gan ei fod yn addaw bod o hir ddefnydd yn y byd, ond nid felly y rhyngodd bodd i'r Creawdwr doeth a daionus, pan oedd fel blodeuyn megys fel yn ymagor, y prydnawn y torwyd ef ymaith ac y gwywodd; ond bydded iddynt gymmeryd cyssur oddiwrth efengyl tangnefedd Mab Duw, ac i ymdawelu, ac y caffont fel yntau eu nerthu i ddywedyd "nid ein ewyllys ni, ond yr eiddot ti, O Dad, a wneler." Claddwyd ef yn Cemetery Aberdar, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. W. Morris, Pentyrch. Heddwch i'w lwch.

"Er colli ein cyfeillion hoff,
Yn yr Iorddonen gref,
Mae'n felus meddwl—etto 'nghyd
Cawn gwrddyd yn y nef."

EIDDIL CYNON.

Hyd. 1af, yn 52 oed, Mary Harry, Star Inn, Wig, ger Penybont-ar-Ogwr. Er i fod y chwaer dda a thwymgalon hon wedi dyoddef cystudd trwm a maith, etto cafodd ei symmud oddiar chwareufwrdd amser

mewn modd annysgwyliadwy. Aeth i'w gwely nos Fercher heb deimlo dim yn waeth nag arferol, a boreu tranoeth cawd hi wedi huno yn nghwsg marwolaeth. Gadawodd ar ei hol briod a phump o blant anwyl; dau o feibion a thair merch. Claddwyd hi y Llun canlynol yn mynwent Eglwys y Wig. Cyn cychwyn o'r angladd luosog oddiwrth y tŷ, gweinyddwyd yn doddedig a phwrpasol iawn i'r amgylchiad gan y diweddar Barchedig Titus Lloyd, yr hwn yn fuan iawn (fel y gwelir mewn man arall yn yr YMOFYNYDD) wedi hyny a gymmerwyd ymaith gan law oer marwolaeth yn sydyn ac annysgwyliadwy fel hithau.

Hyd. 22ain, yn 39 oed, Jas. Jones, mab ieuengaf Jas. a Mary Jones, Cryngae, Penboyr. Rhyw gymmaint a dwy flynedd yn ol, darfu iddo ymgymmeryd a swydd arwerthydd, yn yr hon yr oedd yn cyflym ennill parch ac ymddiried y gymmydogaeth a'r amgylchoedd. Lled debyg nad oedd ei gyfansoddiad yn gyfartal i'r ymroad ofynai ei swydd oddiwrtho. Yn ei gystudd cafodd bob chwareu teg allai medr meddygol roi; ond ni thyciai ddim. Yr oedd yr afiechyd yn drech. Daeth diwedd ei yrfa yn nghanol bywyd o ddefnyddioldeb—gadawodd ar ei ol briod a nifer fawr o blant bychain i alaru eu colled drom, a pherthynasau lawer i hiraethu am dano. Anwylid ef hefyd gan gylch ëang o gyfeillion, yr oedd ei ddidwylledd wedi ennill eu serch gymmaint. Prudd iawn i'r teimlad yw symmudiad ein cyfeillion yn eu hamser goreu; ond diau mai yr Hwn all ddweyd "nid fy meddyliau I yw eich meddyliau chwi, ac nid fy ffyrdd I yw eich ffyrdd chwi" sy'n goruwch-lywodraethu. Mae llawer o ddirgelwch yn nhroion Rhaglunaeth, ofer i ddyn ofyn y *paham* a'r *pa fodd*. Pan yw ein llestri gweinion yn suddo o'r golwg, mae'n gysur i ni gofio mai suddo yn nghefnfor cariad Duw maent. Nid yn fynych y gwelwn y fath dyrfa fawr ag a ddaeth yn nghyd ddydd ei angladd. Gosodwyd ei weddillion marwol yn mynwent Eglwys henafol Henllan, yno i dawel huno oddiwrth lafur a lludded daear hyd pan na bo amser mwy. Niwrnod du, tywyll oedd hwn i'w fam oedranus. Boed i'w chred yn naioni ei Thad nefol ei chyssuro yn ei thrallod. Mae yr hwn oedd anwyl a hoff iawn ganddi dan wyliadwriaeth y llygad uid yw byth yn huno. Yr Un ofala am danom yn y byd mawr o ddirgelwch y tu hwnt ac yma ar y llawr. G. E.

Tachwedd 15, yn 17 oed, Watkin, mab hynaf Mr. Watkin Bevan, o Drenewydd y Nottais. Yr oedd y cyfaill ieuanc gobeithiol hwn, y noson o'r blaen, er fod tipyn bach o ddala'r anwyd arno, ac er ei fod dan ofal meddygol o herwydd y wen (*goitre*), etto i bob ymddangosiad yn ei iechyd arferol, ac hyd bump ar gloch boreu dydd Gwener y 15fed, ni freuddwydiwyd am un perygl. Tua'r amser hwnw cafodd y teulu eu dihuno ganddo, a chafwyd ei fod yn anadlu gydag anhawsder mawr. Am saith yr oedd wedi marw, ar ol cystudd poenus iawn. Y mae ei symmudiad disymwth yn brofedigaeth chwerw i'r teulu gartref, lle'r oedd ei dymher siriol a'i barodrwydd i roddi ei help yn mhob cyfeiriad yn ei wneuthur yn ddefnyddiol iawn. Yn nghapel y Nottais gwelir ei eisieu yn fawr—canys nid oedd ei le ef yn wag byth, nac yn y gwasanaeth nac yn yr ysgol Sul, na'r ysgol gân, na'r cwrdd gweddi. Cyn cychwyn o'r tŷ, darllenwyd a gweddiwyd gan Mr. Jones, Aberdar, ac yna wedi ffurfio yn orymdaith, yr ysgol Sul yn ddau a dau, canwyd dau emyn pwrpasol allan o'r *Sunday School Hymn Book*. Yn yr Eglwys gwasanaethwyd gan y Ficer.

Yn ddiweddar, Evan Jones, Gate House, Heol-y-dwfr, Caerfyrddin. Hen Undodwr selog oedd yr ymadawedig, ac yn ddarllenwr o'r YMOFYNYDD. O herwydd absenoldeb Dr. Vance Smith yn Llundain yn y cyfarfod ar adolygu'r Beibl, gwasanaethwyd gan y Proffeswr Morgan, a chladdwyd ef yn y *Cemetery*. D. J.

[Os nad ydym yn annghofio yr oedd yr hen wr uchod yn frawd i'r Parch. D. L. Jones, *Tutor*, Caerfyrddin, a rhaid ei fod uwchlaw 70 oed.—GOL.]

Yn ddiweddar, bu farw yn sydyn iawn, Wm. Jenkins, *Sail-maker*, *Chapel st.*, Caerfyrddin. Dyma hen Undodwr selog etto wedi ein gadael. Yr oedd gyda ni ar bob tywydd. Claddwyd ef yn y *Cemetery*, y Parch. Dr. Vance Smith yn gwasanaethu. D. J.

Yn ddiweddar, yn Nghlafdy Caerfyrddin, John George, Teiliwr. Bu yr ymadawedig un amser yn gysson iawn yn mynychu ein capel. Claddwyd ef yn Eglwys Abergwili. D. J.

PRIODAS.

Hyd. 19, 1878, yn Bron Deifi, Llanbedr, Ceredigion, Mr. J. Williams, Esgerwen, a Miss Anne Jones, Frowen, Pencareg, gan y Parch. R. C. Jones a cherbron y Cofrestrydd, Mr. Evan Davies, Llanybyther.

Barddoniaeth.

CREDO A GWEITHRED.

(Aralliad.)

Tra'r ddaear fantellwyd gan eira yn drwch
A g'lymai 'n rhewedig y mynydd a'r fro,
At ddrws y wraig weddw, oedd unig a thlawd
Anfonwyd gan hael-ddyn ei weision â glo.

Ie, dyna y weithred
A ddarfu ef wneyd;
"Pa beth oedd ei gredo?"
Nis gallaf fi ddweyd.

Wrth godi ac eistedd, y boreu a'r hwyr,
Bendithiwyd e'n helaeth "mewn basged a 'stor"
A mwy-mwy y rhoddodd 'nol cynydd ei dda,
Heb atal y grysten na'r phiol ddw'r o'r.

Yn mhob-ryw dda weithred
Blaenorodd yn chwim;
"Pa beth oedd ei gredo?"
Ofynais i ddim.

Nid oedd ei elusen yn debyg i'r gwynt
A chwytha yn drystfawr drwy frigau y coed,
Ond ydoedd yn dyner, sidanaidd, a mwyn,
Fel syrthiad yr ôd, yn wasgodlen a roed.

I'r llysiau crymedig
I'w noddi yn llwyr;
"Pa beth oedd ei gredo?"
Y tlotyn a wyr.

I bobl newynog, yn ieuanc a hen,
Mewn torthau o fara ei ffydd ydoedd gref;
Ac i'r hwn gysgododd rhag oerfel yr hin
Cueiriau llawn gobaith a roed ganddo ef.

Yn gystal a gweddio
Yr ydoedd yn *gwneyd*;
"Pa beth oedd ei gredo?"
Nis gallaf fi ddweyd.

Ei oglud mewn geiriau ni roddodd erioed.
Trwy weithio ac effeithio yr ydoedd yn byw;
Ei gwpan a'i grysten gyfranai yn rhad
A phawb o'ent annghenus yn mhlith dynolryw.

Yn amser gwir angen
Yn gyfaill yr oedd;
"Pa beth oedd ei gredo?
Ni dd'wedodd ar goedd.

Gan roddi ei hyder yn llwyr yn y nef,
Parhaodd i weithio â'i law ac â'i ben;
A'r hyn mewn elusen a roed ganddo ef
Felusodd ei fara a'i gwsg is y nen.

Clau dreulio mae'n bywyd,
Gofalwn bob dydd;
"Pa beth oedd ei gredo?"
"Pa beth oedd ei ffydd?"

Trenewydd-yn-Nottais. W. B.
Gorphenaf 18, 1878.

ENGLYNION

Er Cof am Mr. John Davies, *Lock & Key*, ger Llanbedr, Ceredigion.

Y GWR ifanc arafwedd—osodwyd
Yn sydyn mewn ceufedd;
Er hyny mae ei rinwedd
A'i uchel barch *uwchlaw bedd.*

Yn erbyn pob gwŷn a gau—e' gododd,
Do, gedyrn wrthgloddiau;
Oedd ddyn clws o ddoniau clau,
A di-lwfr gyda'i lyfrau.

Myfyrio Llyfr y llyfrau,—byw'n onest,
Byw'n uniawn ei gamrau,
Geisiai ef, gan lwyr gashau
Ffiloreg neu ffol eiriau.

Rhoddi gwr o'r hawddgaraf—yn y bedd
Ddyry boen o'r mwyaf;
Nid ni, er hyny, ond Naf,
A ŵyr pa beth sydd oraf.

Os clwyfus, bregus, yw bron—ei riaint
Ar ei ol yr awrhon;
Byth mwy bydd e' mewn lle llon,
Yn ngholeg gwlad angelion.

Chwef. 25, 1878. DEWI HEFIN.

ENGLYN

I fab cyntaf-anedig Mr. a Mrs. Griffiths, North Road, Aberayron.

Yn tyfu bo'ch etifedd—yn ddyn mawr,
Yn ddyn mwyn, da 'i fuchedd;
Caed heb groes hir oes a hedd
Yn rhodio mewn anrhydedd.

Aberayron. GWLADWR.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &C., ABERDAR.

cael eu hadeiladu yn bresenol. Yn ol y cyfrif uchod ni a welwn fod y gwahanol enwadau o Ymneillduwyr wedi ac yn llafurio yn galed er cadw yn bur a dilychwin i'r oesau a ddel y rhyddid a gostiodd mor ddrud i'r tadau. Yr ydym ninau yn teimlo mai ein dyledswydd yw cymmeryd y maes fel cynnorthwywyr ac nid fel gwrthwynebwyr y rhai sydd eisoes yn llafurio, fel pan ddel Arglwydd y cynauaf y byddo genym ninau hefyd loffyn bychan yn mhlith yr ysgubau.

Dyma yn fyr yw y prif resymau sydd genym dros ymaflyd yn y gorchwyl o gael capel Undodaidd yn Nowlais; a chan ein bod bawb o honom, yn perthyn i'r dosparth gweithiol, fel nad oes genym mewn llaw ddim cyfalaf er ein cynnorthwyo ond ein hennillion dyddiol, yr ydym dan orfod i osod ein cais gerbron ein cyd-lafurwyr o bob gradd a sefyllfa, ac o blith pob plaid o grefyddwyr. Yr ydym er hyn, oblegyd rhesymau digon amlwg heb eu henwi; yn gosod ein hachos yn y modd mwyaf neillduol o flaen Undodiaid Lloegr a Chymru. Dymunwn gan hyny, yn y modd mwyaf parchus ar ein cyfeillion oll o wahanol enwadau, ac yn enwedig ein brodyr yr Undodiaid i'n cynnorthwyo yn ein hanturiaeth bwysig trwy gyfranu yn ol eu hamgylchiadau, a byddwn ninau'n ddiolchgar iawn am y rhoddion lleiaf yn gystal a'r rhai mwyaf. Gosodwn ein cais gerbron y cyhoedd mewn yspryd hollol ddidramgwydd a Christionogol. Ceisiwn ofalu yn ein hadeilad am gyfleusdra yn fwy nag addurn, am ddefnyddioldeb yn fwy na gwychder, am ogoniant Duw yn fwy nâ chlod dynion.

Arwyddwyd dros y Pwyllgor,

MORGAN EVANS, Cadeirydd.
JAMES EVANS, } Trysoryddion.
JOHN JONES, }
Dowlais. JANE LEWIS, Cofiadur.

Y mae y gweinidogion canlynol wedi dadgan eu cymmeradwyaeth o'r appel uchod.

Parch.	Titus Lloyd, Nottais.	Parch.	R. C. Jones, Llanbedr.
,,	David Evans, B.A., Cribin.	,,	W. James, B.A., Aberdar.
,,	T. Thomas, Pantydefaid.	,,	W. Davies, Penrhiw.
,,	E. W. Lloyd, Cwmbach.	,,	John H. Davies, Cefncoed.
,,	W. Rees, Rhydygwin.	,,	Ed. Higginson, Abertawe.
,,	W. Thomas, M.A., Llwyn.	,,	J. E. Manning, M.A., do.
,,	R. J. Jones, M.A., Aberdar.	,,	J. J. George, Aberdar.
,,	John Evans, Gellionen.	,,	N. R. Williams, Merthyr.
,,	John Davies, Alltyplaca.		

TANYSGRIFIADAU ADDAWEDIG

Gan y Frawdoliaeth yn Nowlais	£90	0	0
,, ,, Merthyr	50	0	0
	£140	0	0

TALIADAU.

D. E., Rhymni; J. J., Cwmbargoed; R. H., Gellidogyn; J. D., Prengwyn; J. T., Pennant; W. L., Pontypridd; E. J., Carmarthen; W. J., Cwmbach; J. E., Blaenllecha; Miss J., Cellan; R. D., Aberaeron; T. D., Llwynrheol; S. D., Coedparc; D. T., Liverpool; W. J., Pitcot Cottage; J. L., Pantysgawen; Eiddil Cynon; R. P., Blaentrafle.

LLYFR I'R YSGOL SUL.

Mewn cydsyniad â'r cais a welir ar tudalen 229, yr wyf yn barod i ddwyn allan ail argraffiad o'r llyfryn crybwylledig os caf gefnogaeth ddigonol. Cynnwysa Llyfr Hughes, Wrexham, 16eg o dudalenau, a gwerthir ef am geiniog; cynnwysa'r llyfr uchod 32eg, ac felly bydd yn werth 2 geiniog. Os galluogir fi i argraffu 3000, gallaf werthu 100 ac uchod yn ol 12 swllt y cant.

Anfoner *Orders* yn ddioedi at y Golygydd.

CWRDD CHWARTER NADOLIG.

Cynnelir ef yn Llandyssul y Mercher a'r Iau cyntaf yn y flwyddyn newydd. Y Parch. R. J. Jones, M.A., i bregethu y bregeth. Y Pwnc: "Rhan gweinidogion a rhan lleygwyr (neu y sawl nad ydynt weinidogion) tuag at ddwyn yn mlaen achos Duw yn ein plith," i gael ei agor trwy bapur gan y Parch. R. C. Jones o Lambedr.

W. Thomas.

YR HELBUL YN LLWYNRHYDOWEN.

GALW I MEWN Y CYFRANIADAU.

Dymunir yn barchus ar bwy bynag sydd wedi bod mor garedig ag addaw cyfranu at y capel newydd, ac heb dalu i mewn eu haddewidion, i wneyd hyny yn ddioed i *Mr. John Jones, Solicitor, Llandyssul*, mewn *Cheques* neu *Post Office Orders*. Derbynir hefyd bob cyfraniadau ychwanegol yn ddiolchgar. Mae y capel yn prysur fyned rhagddo, ac er ys wythnosau dan dô.

TANYSGRIFIADAU YCHWANEGOL:

	£	s.	d.
Rev. E. Penllyn Jones, M.A., Aberystwyth University College	0	10	0
Dr. Edmund Atkinson	3	3	0
Mr. Evan Jones, Cross Inn, nr. New Quay ...	1	1	0
Capt. T. Davies, "*Hero*," New Quay	1	1	0
Mr. David Jones, *Mate*, "*Hero*," New Quay ...	1	1	0
Mr. Davies, Trebannau, Cellan	2	0	0

Wm. Thomas.

AT EIN DARLLENWYR.

Telerau.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—Rev. R. J. Jones, Clifton Street, Aberdare.

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfarwydd,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Myrtle Cottage,
Aberdare.